



LLEISIAU LLANBABS

Tudalen 7



TRIP I LANDUDNO

Tudalen 13



KELLY A CONNIE

Tudalen 20



ANHYGOEL

Tudalen 25

ECO'r Wyddfa

Rhif: 412
Gorffennaf/Awst 2013
Pris: 50c




Braint i'r Marchog

Treuliodd Syr David Brailsford y trê'n stêm. Roedd y cerbyd arbennig benwythnos yn ardal ei febyd yn ystod Mehefin, a mwynhaodd y profiad yn ddi-ben-draw hwn wedi ei enwi ar ei ôl, ac yr oedd yn hynod falch o'r anrhydedd. Dywedodd fod cael ei enw ar gerbyd tren yr Wyddfa yn gymaint os nad mwy o fraint na chael ei urddo'n farchog ac arwain Tim Prydain i'w wahanol lwyddiannau Olympaidd. Parhad ar dudalen 8



Cydnabyddiaeth am Waith Cymdeithasol.
Gwobr Genedlaethol i Arweinydd Antur Waunfawr.
Mewn seremoni yng ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd yn ystod y mis diwethaf, cyflwynwyd gwobr arbennig i Menna Jones, Antur Waunfawr. Roedd yn derbyn gwobr Arweinyddiaeth Mewn Menter Gymdeithasol fel rhan o noson wobrwyo'r "Leading Wales Awards". Cyngor Cyd-weithredol Cymru a'i henwebodd am y wobwr, a hynny yn dilyn ei gwaith yn arwain tim Antur Waunfawr gan ehangu gweithgaredd ac arloesi yn y maes. Parhad ar dudalen 4

*'Er gwaethaf tramgwyddo
diystyriol dringwyr estron,
llifogydd Tachwedd, rhew a
gerwinder y gaeaf, lluwchfeydd
Mawrth a'r gwanwyn caletaf er
cyn cof, blodeuodd Lili fach yr
Wyddfa yn ei llawnder unwaith
eto eleni'*



**I Lois Eifion
(Penisarwaun)
Enillydd Tlws y Cerddor
Eisteddfod yr Urdd 2013**

Taleb dwy ochr y teulu y
canu'n
cynnal, fel anadlu,
hwyl emyn yn byrlymu
a thalp arbennig o'i thy.

Agos ein Mabinogi – a'r
rhiniol
Franwen yn ysgogi
o'i bodd i gyfansoddi –
daeth medal i'n hardal ni!

Ein braint i gyd yn ein bro – y
dylem,
ardaloedd yr Eco
yn wir weddaidd hyrwyddo
moliant bun pa lwyddiant bo!

Norman Closs



E ECO DIGIDOL?

Mae'r "Eco" yn edrych ymlaen i'r dyfodol, ac yn gobeithio sefydlu unai gwefan neu safle Facebook yn ystod y misoedd nesaf. Ond mae angen gwirfoddolwyr sydd efo diddordeb yn y dechnoleg

newydd, a'r awydd a'r gallu i gynnal safle o'r fath. Gweler yr erthygl fer ar dudalen 2 am fwy o wybodaeth.

RHIF 412
Gorffennaf/Awst 2013
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
 Llanrug (238495)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
 Llanberis (870740)
 eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
 (01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
 Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
 Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
 Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED:

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
 dylunio graffeg
 07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2013

Rhifyn	Copi i law	Plygu	Ble
Medi	Awst 18	Awst 29	Llanrug
Hydref	Medi 15	Medi 26	Penisarwaun

Prosiect digidol y papurau bro.

Dros gyfnod o rai misoedd mae papurau bro Eco'r Wyddfa, Llais Ogwen a Llewedi wedi cwrdd a chynrychiolwyr o'r cylchgrawn a gwefan newyddion a materion cyfoes, Golwg a Golwg360.

Bwriad y cyfarfodydd oedd ceisio deall a chynabod y camau tuag at datblygu llais ar lwyfannau darlledu y we.

Mae sawl awgrymiad gan Leighton Andrews, gweinidog dros addysg ar iaith Gymraeg, fod angen i bapurau bro ddatblygu presenoldeb cryf ar-lein, hyn drwy ddefnyddio gwefannau cymdeithasu megis Facebook a Twitter, gyda'r bwriad o gryfhau defnydd y Gymraeg yn gymunedol a datblygu'r iaith ar lwyfannau cymdeithasu y we.

Drwy gamu tuag at dueddiadau darlledu arlein byddem yn annog mwy o fentrau, unigolion a chlybiau i ymroi a defnyddio'r dechnoleg i gadw traddodiad o ddarlledu cymunedol drwy'r Gymraeg yn gryf.

Gan ddarlledu yn aml-lwyfan drwy ffurf llwyddianus y papur print ac esblygu tueddiadau cyfoes newydd y we, byddem yn gobeithio darparu mwy o gynnwys yn rheolaidd, gyda lluniau, fideos, canlyniadau chwaraeon a newyddon traffic yn rhai o'r syniadau sydd wedi ei awgrymu.

Rydym yn estyn croeso i ysgolion, clybiau chwaraeon, mudiadau ffermwyr ifanc, mentrau lleol Cymraeg, hyrwyddwyr digwyddiadau ac unigolion awyddus i gysylltu os oes diddordeb cyfrannu cynnwys neu o ddiddordeb pellach yn natblygiad a chynlluniau'r papur bro.

Byddwn yn cynllunio gweithdai digidol gyda chynrychiolwyr o wefan Golwg360 yn y misoedd nesaf, ac yn awyddus i sawl un o'r gymuned leol fynychu.

Am fwy o wybodaeth ynglyn a'r cynlluniau cysylltwch ac aelod o dîm cynhyrchu'r papur,

Neu

Siôn Richards - ser12@aber.ac.uk

Owain Schiavone - Owainschiavone@golwg

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am Marion Jones, 19 Hafan Elan, Llanrug; Er cof am Anti Sarah, Tref Eilian, Waunfawr, gan ei nith, Eleri, a'i nai, Elwyn.

£10: Mai a Gwyn Davies, Bod Awel, Llanrug; Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, Waunfawr; Louie Pritchard, 20 Dôl Eilian, Llanberis; Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis.

£5: Glenda Jones, Deiniolen; Helen Evans-Munro, Cynan, Llanrug.

ECO'r Wyddfa

Peidiwch gori ar stori

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn

- o fewn Prydain: £15.00

- gwledydd Ewrop £33.50

- gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos

rhwng

7.00pm ac 11.00pm

ARVONIA

COACH TOURISM V cpt

• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.

• Rhaglen Triplau Dyddiol.

• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

• Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

YSGOLORIAETH IWAN WILLIAMS

Ar yr 16eg o Fedi 2012, bu farw Iwan Williams ar ôl brwydro'n ddewr yn erbyn y salwch cancr yr ymennydd. Ganed Iwan ym mhentref gwledig, Deiniolen, pentref yng nghesail mynyddoedd Eryri yng Ngogledd Cymru. Yn ystod ei ddyddiau fel disgybl yn Ysgol Gwaun Gyfni daeth Iwan yn aelod o Seindorf Arian Deiniolen, a bu'r berthynas rhwng Iwan a'r band yn un glos iawn ar hyd ei oes. Dros y blynyddoedd edrychodd y band ar yrfa Iwan gyda balchder wrth iddo ddatblygu drwy rengoedd y band ieuenctid, y band mawr, y band Sir a'r band Cenedlaethol yn ogystal â gwneud argraff ar lefel rhyngwladol. Yn ystod ei fywyd byr ond ysbrydoledig, bu Iwan yn barod iawn ei gymwynas wrth rannu ei brofiadau, ei dalent a'r addysg a dderbyniodd, ac roedd wastad yn dweud gyda balchder mai yn Neiniolen y cychwynnodd y cwbl.

Roedd Iwan yn ysbrydoliaeth mawr i ni yma yn Neiniolen, ac oherwydd hyn mae'r Band wedi penderfynu sefydlu ysgoloriaeth er cof amdano. Bydd yr ysgoloriaeth yn cynnig cymorth er mwyn ariannu cyfres o wersi offeryn pres dros gyfnod o 12 mis. Bydd hyn yn sicrhau, oherwydd ysbrydoliaeth a dylanwad Iwan, bod nifer o blant a phobl ifanc yn elwa o dderbyn gwersi arbenigol ar gychwyn eu gyrfa yn chwarae offeryn pres.

Er mwyn cychwyn ariannu'r ysgoloriaeth arbennig hon, bydd 3 o gyfeillion agosaf Iwan, o'i ddyddiau yn yr ysgol a'r band, ynghyd ag Euros, brawd Iwan, yn mentro ar daith gerdded heriol o 30 milltir, taith fydd yn mynd a'r criw i gopa mynydd uchaf Cymru, Yr Wyddfa. Bydd Dylan Cole-Jones, Carwyn Price a Dylan Williams, yn mentro ar y daith hon ar y 10fed o Awst, 2013. Bydd y daith yn cychwyn am 2.00yb o draeth Dinas Dinlle, man arbennig yng nghalon Iwan, cyn mynd am Lanberis ac yna fyny'r Wyddfa, cyn troi am adref i Ddeiniolen trwy'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis, man arall ble roedd Iwan yn ymweld ag o'n aml pan fyddai adref yn Neiniolen gyda'i wraig Lorraine a'i fab Owen.

Bydd y pedwar cerddwr craidd yn cael cwmni ffrindiau a theulu Iwan ar hyd y daith, a bydd rhai aelodau o Seindorf Arian Deiniolen yn mentro i gopa'r Wyddfa gyda eu hofferynnau, ac yn perfformio ar y copa, cyn cychwyn ar ran olaf y daith yn ôl i'r Cwt Band (Yr Hen Felin) yn Neiniolen. Er mwyn rhesymau iechyd a diogelwch, mae'n rhaid i unrhyw un arall sy'n dymuno ymuno â ni ar y daith hon fynegi eu diddordeb drwy ebostio ysgoloriaeth.iwan@hotmail.co.uk

Bydd holl elw'r daith arbennig hon yn cael ei rannu'n gyfartal, bydd hanner yr elw'n mynd i roi cychwyn ariannol i Ysgoloriaeth Iwan Williams, a'r hanner arall yn cael ei roi mewn cronfa ariannol a sefydlwyd er cof am Iwan ar gyfer ei fab, Owen sy'n 7 mlwydd oed.

Bydd manylion pellach ar sut i wneud cais ar gyfer yr ysgoloriaeth hon yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond yn y cyfamser, os dymunwch noddi ein cerddwyr yna dilynwch y ddolen hon <https://mydonate.bt.com/events/ysgoloriaethiwan/99373> neu os dymunwch



gyfrannu'n ariannol yn flynyddol i'r gronfa hon, yna cysylltwch ag Ysgrifennydd y Band, Mr Meirion Jones ar 01286 870452

Er mwyn cadw llygaid ar y datblygiadau diweddaraf am y daith gerdded hon, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiad yn ymwneud â'r ysgoloriaeth, 'Hoffwch' ein tudalen Facebook <http://www.facebook.com/>

YsgoloriaethIwanWilliamsScholarship

a/neu dilynwch ni ar Twitter: @ysgiwan

Dylan Griffith Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN


Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyhaeddwyd Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

grid ⁷⁶
dylunio graffeg
darlunio
animeiddio
graffeg arddangos



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg o Ebrill 2013 penderfynwyd:

- Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn holi pam na chafodd y Cyngor gyfle i roi sylwadau ar gais i osod giatiau ar y llwybr cyhoeddus ger Tan y Bryn, ac am eglurhad o bolisi'r Cyngor i ddelio gyda materion tebyg.
 - Gofyn i aelod o Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd ddod i gyfarfod o'r Cyngor i drafod problemau ar lwybrau cyhoeddus yr ardal.
 - Trafod problemau sbwriel yn Llanrug, yn enwedig rhwng siop Londis a Nant y Glyn, gyda Ysgol Brynrefail, gan fod teimlad mai plant yr ysgol oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r sbwriel Hefyd ceisio cael swyddog o'r Cyngor Sir i ddod i glirio'r sbwriel.
 - Gwrthwynebu'r ceisiadau cynllunio canlynol:
 - Cais i adeiladu tŷ fforddiadwy, modurdy a mynedfa newydd ar dir ger Bryn Cwil, Ceunant, Llanrug ar sail problemau traffig a pharcio sydd eisioes yn bodoli yn yr ardal, ac nad yw'r datblygiad yn gweddu i'r ardal nac yn ymddangos fel tŷ fforddiadwy.
 - Cais i ddymchwel yr adeilad presennol a chodi sied amaethyddol newydd yn ei le yn Llidiart y Rhos, Llanrug ar sail maint sylweddol y sied ac na fyddai yn gweddu i'r ardal.
 - Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i godi tŷ a mynedfa newydd ar dir ar Ffordd Glanfynnon, Llanrug ond pwysleisio pwysigrwydd gwarchod y llwybr cyhoeddus cyfagos yn ystod y gwaith ac wedi i'r adeilad gael ei adeiladu.
 - Cyflwynwyd y gyllideb ar gyfer 2013/14 a phenderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb ar ôl y newidiadau canlynol: £800 am goeden Nadolig, £500 i Gynllun Efe, £200 i Ysgol Gynradd Llanrug a £50 i Gwen Thomas.
 - Trafod y syniad o wario arian hen elusennau ar gyfarpar newydd yng nghae chwarae Nant y Glyn gyda'r Comisiwn Elusennau.
 - Rhoi'r grantiau canlynol:
 - £50 i brosiect gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i Batagonia
 - £200 i Ysgol Gynradd Llanrug tuag at gostau mynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Benfro.
- Adroddwyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn anhapus gyda diogelwch y safle ger Brynteg gan fod dympio sbwriel wedi rhoi gormod o bwysau ar y wal ger y llwybr cyhoeddus. Roeddynt hefyd yn anhapus gyda'r math o sbwriel oedd yno. Disgwylir clywed mwy erbyn y cyfarfod nesaf
- Trafod ple ddylid rhoi arwyddion newydd yn y gymuned yn y cyfarfod nesaf.

BOSCH Service
Car Service

MOT **Shell** **www.a-v-w.co.uk**
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

Cydnabyddiaeth am Waith Cymdeithasol. Gwobr Genedlaethol i Arweinydd Antur Waunfawr.

Parhad o'r dudalen flaen.

Mae'r Antur bellach, ar wahan i gynnal caffi a pharc natur yn y pentref, hefyd yn trefnu gweithgareddau hamdden fel cerdded, pysgota a hwylio, yn trefnu gwyliau, cynnal banc dodrefn, casglu ac ail-gylchu plastig, casglu a llarpio papur swyddfa, a chyd-weithio efo Cartrefi Cymunedol Gwynedd i drin hen geginau.

Ar hyn o bryd mae'r Antur mewn trafodaethau â Chyngor Gwynedd ynglŷn â thrawsffurfio gwasanaethau eraill. Gobeithio y gallwn adrodd ar y datblygiad hwn

maes o law yn yr "Eco". Y gobaith hefyd yw derbyn colofn fisol gan Antur Waunfawr yn adrodd am y gwahanol ddigwyddiadau sydd ar y gweill ac am unrhyw weithgareddau newydd.

Mae'r Antur bellach â throsiant o dros £2 filiwn yn flynyddol, gyda Menna yn arwain tim o staff a gweithwyr sy'n cynnwys 145 o unigolion.

Llongyfarchiadau hefyd i Bessie Costello, warden Hafan Elan, Llanrug am dderbyn tystysgrif gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd mewn cydnabyddiaeth o'i gwaith arbennig gyda'r trigolion.



CD Cyntaf Dylanwad

Mae 'Dylanwad' newydd ryddhau eu CD cyntaf, sef 'Geiriau'. Mae aelodau'r grŵp newydd, sydd yn cynnwys Dylan Pierce Williams, Llinos Thomas a Lliwen Foster, wedi bod yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, yn aml yn recordio i oriau mân y bore. Mae Dylan yn esbonio fel y cychwynnodd y grŵp, 'Roeddwn i wedi bod yn ysgrifennu caneuon yng nghefn fy garej ers ychydig o flynyddoedd, ac un noson mi glywais Llinos yn canu mewn parti gwaith a dyma benderfynu gofyn iddi am ei barn ar rai o'r caneuon. Yn lwcus i mi, roedd Llinos yn hoffi'r caneuon ac o fewn ychydig ddyddiau roedd y ddau ohonom yn mynychu Stiwdio'r Mynydd, sy'n cael ei rhedeg gan Lliwen. Cyn pen dim roedd y tri ohonom wedi ffurfio'r grŵp, 'Dylanwad'.

Roedd y grŵp yn awyddus i gyflwyno amrywiaeth o ganeuon ar eu CD cyntaf, rhai caneuon hapus, rhai doniol a rhai sy'n drist. Maent i gyd yn adlewyrchu cyfnodau personol ym mywyd Dylan. 'Yn 2004 roeddwn yng ngorsaf Bangor pan welais filwr yn dod oddi ar y trên. Roedd rhyfel Afghanistan yn ei bedwerydd blwyddyn erbyn hyn ac yn aml iawn roedd y cyfryngau'n darlledu newyddion trist am farwolaethau milwyr. Ar ôl gweld y croeso emosiynol a gafodd y milwr gan ei deulu fe ffurfiodd cân yn fy nychymyg o'r enw 'Geiriau'. Mae clawr y CD yn cynrychioli'r man lle cychwynnodd y daith o ysgrifennu i mi.'

Mae Llinos a Lliwen yn gyn-aelodau o'r grŵp poblogaidd Chicas, ac mae talent y ddwy, ynghyd â chaneuon gwreiddiol Dylan wedi creu CD unigryw sy'n llawn angerdd a gonestrwydd.

Mae Dylan Williams, brodor o Bryn-Rhydd Mawr, Penisarwaun, ond bellach yn byw yn Llandegfan, yn dod o deulu cerddorol ac yn nai i'r diweddar Emyr (Gari Williams) ac Elwyn. Mae'r CD allan ar label Stiwdio'r Mynydd. Am fwy o wybodaeth mae gwefan ar gael, sef www.dylanwad.com yn ogystal â thudalen facebook.

Clwb Bro Bethel Ar ddiwrnod hyfryd o hafbu i lond bws o aelodau a chyfeillion fwynhau'r wibdaith pen tymor. Arhosiad cyntaf y daith oedd Tweedmill Factory Outlet, Llanelwy, lle roedd cyfle i siopa a chael thamaid o fwyd. Yna ymlaen i bentref Llanefydd ac ymweld â chwmni Llaeth y Llan yng nghwmni Gareth a Falmi Roberts. Cawsom ein tywys o gwmpas y gerddi ac yna sgwrs am ddatblygiad y busnes sydd wedi bod yn cynhyrchu iogwrt ers tua 30 o flynyddoedd. Yn dilyn paned a chacen cawsom gyfle i flasgu gwahanol fathau o iogwrt mae'r Cwmni yn eu cynhyrchu. Rhaid oedd gadael y golygfeydd godidog oedd o'n cwmmpas a theithio i Borthaethwy lle roedd pryd o fwyd yn ein disgwyl yn Nhafarn Four Crosses. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod yn fawr iawn a diolchwyd yn arbennig i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau - pawb yn

cytuno fod popeth wedi mynd yn hwylus dros ben.

Cytunodd y Swyddogion presennol i barhau yn y swyddi am flwyddyn arall ac edrychwn ymlaen i gyd gyfarfod eto ym mis Medi.

Cronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2012 Yn dilyn derbyn yr Adroddiad Ariannol Terfynol gan yr Urdd, dymunwn hysbysu mai y swm terfynol a gasglwyd gan bwyllgor Bethel, Seion a Llanddeiniolen drwy amrywiol weithgareddau a ffynonellau oedd 7,267 o bunnoedd.

Dymuna aelodau y pwyllgor ddiolch am gefnogaeth pobl y pentref a'r ardal gyfagos yn ystod y cyfnod codi arian.

Llongyfarchiadau Braf yw cael llongyfarch plant a phobl ifanc y pentref a ddaeth i'r brig mewn amrywiol gystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2013 yn Sir Benfro yn ddiweddar.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod mis Mai, cafwyd adroddiad gan y llywydd, Pat Jones, o'r Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynnyddol yng Nghaerdydd. Bydd y dirywiad yn y priffyrdd a chanol trefydd yn cael ei ddwyn gerbron ynghyd â'r pwysau fydd yn cael ei roddi ar lywodraethau lleol i edrych i fewn i broblemau parcio a threthi i fusnesau lleol. Pasiwyd o blaid yr Argymhelliad. Bydd Vera Price yn pleidleisio ar ran yr aelodau a dwy gangen arall o'r Sefydliad yn yr ardal yn y cyfarfod yng Nghaerdydd. Penderfynwyd hefyd o blaid pasio drafft cyfansoddiad a rheolau Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched. Ar gyfer cloi'r noson, roedd pawb wedi dod â thamaid i brofi o'u hoff rysait a chafwyd gwledd o pate, pastai bwthyn, treiffl, bara brith a nifer o gacenau.

Bu nifer o aelodau'r gangen yn ddiweddar yn mwynhau noson yn Bowlio Deg yng Nghanolfan Glasfryn gyda phryd bwyd i gloi y noson. Trefnir noson gyffelyb yn Llandudno ar gyfer noson y Sefydliad ym Mehefin ynghyd â'r Trip Blynnyddol ym mis Gorffennaf.

Mae ein dymuniadau da yn mynd i bawb o aelodau Grŵp Eryri sydd wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Y Cae Chwarae Yn dilyn y difrod sylweddol i ffiniau'r Cae Chwarae yn ystod y llifogydd fis Tachwedd diwethaf, llawenydd erbyn hyn yw gweld y cyfan o'r terfynau a'r tirwedd wedi eu hadnewyddu ac mae ein diolch fod y gornel hon o'r pentref ar bwys y briffordd wedi ei hadfer.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Ymweliad yr Henaduriaeth Nos Fawrth, Gorffennaf 9fed, bydd cyfarfod o Henaduriaeth Arfon yn ymgynnull ym Mrynrefail. Hwn yw'r ail achlysur i'r Henaduriaeth gael ei chynnal yn yr eglwys ers i'r gynulleidfa symud i addoli ar safle Caban. Fel mae'n arferol bydd aelod o'r Henaduriaeth yn ymateb i Holiadur a gwblhawyd gan y swyddogion sy'n amlinellu agweddau ar sefyllfa'r Achos. Dymuniad Mrs Eirian Howells, Berea Newydd, oedd cael bod hefyd yn rhan o'n haddoliad. Hyfrydwch felly oedd cael ei chroesawu i'n plith i'r oedfa nos Sul, Mehefin 9fed. Daeth cynulliad cryno o'r aelodau ynghyd a chafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad Robert M. Morris, Penygroes.

Y Gymdeithas Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Iau, Mehefin 13eg.

Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd y noson, Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Roedd y myfyrdod dan ei arweiniad i'r noson yn seiliedig ar ddetholion byr o gyfrol Eigr Lewis Roberts 'Ces Hana'. Estynnwyd croeso cynnes i Geraint Huws Roberts, Penrhosgarnedd, fel siaradwr gwadd y noson. Roedd yn falch o gael dod i Frynrefail i safle ei hen ysgol a oedd yn dwyn llawer o atgofion pleserus iddo. Mewn dull cartrefol cafwyd adroddiad ganddo drwy nifer o ffotograffau o'i daith i Wlad Pwyl ac yn arbennig ei ymweliad ag Auschwitz. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am sgwrs oedd yn adlewyrchu ymelys a'r chwerw. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 25ain yng nghwmni Hywel Roberts, Caernarfon.

ER COF AM BESSIE ELLIS

I blant, y capel a'r Blaid – rhoi'r oriau,
daw'r arwain o'r enaid.

Braint hon fod 'mysg ffyddloniaid
hael ei rhoi pan welai raid.

Ei mwytha fu'i rhodd ym Methel – di-dâl
i deulu a'i chapel.

O'r braw 'nôl i law Wil Êl,
deuawd gaiff huno'n dawel.

RLLJ

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Oedfaon Gorffennaf am 5.30 yr hwyr:

- 7: Mr R.J.H. Griffiths (Machraeth), Bodffordd
 - 14: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
 - 21: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn
 - 28: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
5.30am-7.30pm
(Llun-Sadwrn)
5.30am-3pm(Sul)

Tynfa misol Dyma'r rhestr o enillwyr mis Mehefin: Huw Edwin, Bro Galed, Glandŵr (84) £40; Mair Roberts, SŴn y Gwynt (77) £25; Norman Hughes, Llyn Gele (35) £15; Steve a Ceri, 9 Bryn Gof (44) £5. Diolch eto i bentrefwyr Caeathro am gefnogi'r dynfa bob mis.

Profedigaeth Bu farw Mr Hugh Robert Jones, 22 Rhos Glangwna, yn ystod mis Mai. Anfonwn gydymdeimlad cywir iawn â'i weddw, Mrs Margaret Jones, Pat, Carys a John a'r teulu yn eu colled.

Gwasanaethau y Capel Sylwer mai ar Fehefin 30ain am 2 o'r gloch y cynhelir y gwasanaeth o dan ofal y Gweinidog, ac nid ar y 7o Orffennaf. Mae gweddill amserlen y mis yn sefyll.

Profedigaeth Bu farw Mr Dewi Hughes, Cefn Rhos, brawd a brawd yng nghyfraith i

Mair a Dewi Parry, Cefn Rhos. Anfonwn ein cydymdeimlad cywir i'r teulu oll.

Clwb y Merched Cafwyd noson ddifyr iawn yn troedio strydoedd Caernarfon yng nghwmni Emrys ar ei daith "Ty'd am dro Co", addysgiadol a hwyliog iawn. Cafwyd swper blasus ym mwyty Wal i orffen y noson. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fehefin 27ain, a hwn fydd y cyfarfod blynyddol i orffen rhaglen y flwyddyn.

Llongyfarchiadau mawr i Caio Iwan, Carrog ar ei benodiad i swydd newyddiadurwr gyda'r South Wales Argus yng Nghasnewydd. Pob lwc i ti, Caio.

Dymuniadau da Mae Mr Bryn Griffith, Delfryn, yn derbyn triniaethau yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan i chi, Bryn.

Gwelliannau i'r Cae Chwarae.

Bu plant Caeathro'n dathlu'n ddiweddar wrth i wahanol offer yn y cae chwarae lleol gael eu gwella a'i gwneud yn bosibl i blant ifanc iawn a phlant ag anabledd fedru defnyddio'r cyfleusterau.

Casglodd Pwyllgor y Cae Chwarae dros £20,000 i brynu offer newydd sy'n galluogi plant mewn cadair olwyn i ddefnyddio'r offer. Mae'r chwrligwgan yn boblogaidd iawn bellach, gan ei bod yn bosibl rhoi cadair olwyn arni. Mae Erin, merch fach Hefin Hughes, sy'n aelod o'r Pwyllgor Cae Chwarae, yn defnyddio cadair olwyn, a dywedodd ei thad, "Mae Erin bellach yn cael ei chwildroi ar y chwrligwgan yng nghwmni ei chwiorydd a'i ffrindiau, yn hytrach na gorfod gwyllo fel yr oedd cynt."

Gosodwyd cyfarpar Radar ar giat y cae chwarae er mwyn ei gwneud yn haws i rai ac anabledau gael mynediad rhwydd i'r cae. Mae bwrdd picnic hefyd wedi ei osod o fewn y cae, ac y mae'r defnydd o'r cae gan blant y pentref wedi cynyddu'n ddirfawr o ganlyniad i'r gwelliannau.

Dymuna'r Pwyllgor Cae Chwarae ddiolch i'r canlynol am noddi'r prosiect: Cwmni G.L.Jones, Bethesda; Cyngor gwynedd; Tir a Mor Cyf; Cronfa Ddatblygu Cymunedol Watkin Jones; Mantell Gwynedd; Cyngor Cymuned Waunfawr a'r Bwrdd Crwn.

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Diolch Wedi blynyddoedd lawer o ddanfôn yr Eco i dai yn Hafod Oleu, bydd Mrs Elan Williams yn rhoi'r gorau i ddosbarthu a rhoi ei thraed i fyny. Hoffwn ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd a dymuno'n dda i Mr Brian Price sydd wedi cytuno i gymryd y gwaith drosodd yn ei lle. Diolch i chi eich dau.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Glyn a Iona Richards, Tai Caradog, yn eu profedigaeth lem o golli ŵyr, Dyfed Ellinson, Brynsiencyn,

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen Roedd tymor 2012/13 yn un eithaf siomedig gan mai dim ond un tîm a chwaraeodd yn y pentref, sef y Tîm dan 11. Roedd y tîm yn cynnwys rhai o chwaraewyr Llanberis yn ogystal ac fe gafwyd tymor yn llawn hwyl ac ymdrech.

Ond erfynnir am gael gwirfoddolwyr i redeg timau'r plant. Mi fyddai'n braf gweld timau yn yr holl adrannau yn chwarae o dan enw'r pentref. Yn ogystal, mae gwir angen mwy o chwaraewyr. m Mae croeso i unrhyw un o blant y pentref neu bentrefi eraill yr ardal ymaelodi - maent yn siŵr o gael digon o hwyl. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Glyn ar 872133.

Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro 2013



Llongyfarchiadau mawr i holl blant y pentref a'r ardal a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro. Bu plant yr aelwyd yn cystadlu gyda'u Càn Actol ac yn y gystadleuaeth i bartion Cerdd Dant. Llongyfarchiadau iddynt am berfformio mor arbennig o dda.

Daeth llwyddiant unwaith eto i Osian Trefor ar yr Unawd Cerdd Dant, blwyddyn 3 a 4, ble daeth yn ail.

Bu nifer o blant Uwchradd y pentref yn cystadlu yn ogystal mewn amrywiol gystadleuaethau megis Dawnsio Disgo, Band Chwyth Ysgol Brynrefail a chanu detholiad allan o Sioe Gerdd. Da iawn chi, pob un ohonoch.

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254



Dymuna Medwyn a Marian Ellinson o Frynsiencyn a Glyn a Iona Richards, 5 Tai Caradog, ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r arian dderbyniwyd ar ôl colli mab ac ŵyr annwyl, sef Dyfed, mor annisgwyl. Bydd yr arian yn cael ei roi i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Diolch Hoffai Glenda Jones o Ddeiniolen ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati tra'n dathlu ei phen-blwydd yn 50 mlwydd oed. Hoffai ymestyn y diolch yn enwedig at ei mam, Mona, ei chwaer, Lynda ac hefyd i Gwenllian a Daniel.

Cymorth Cristnogol Casglwyd £760.00 er budd Cymorth Cristnogol yn yr ardal yma eleni. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ac i'r rhai a fu'n casglu o dŷ i dŷ. Diolch yn fawr.

Clwb Cant Enillwyr Clwb Cant Ysgol Gwaun Gynfi yn ddiweddar oedd:

Ebrill: 1. (38) Nia Roberts; 2 (15) Carolyn Davies; 3. (99) Rhys ab Elwyn.

Mai: 1. (78) Buddug Jones; 2. (33) Peter Booth; 3. (12) Shaun Sutton.

Mehefin: 1. (5) Marina Marzelos; 2. (53) Jackie Warrington; 3. (11) Delia Thomas.

Lleisiau Llanbabs yn Eisteddfod yr Urdd



Taith Beic Nodedig Ysgol Sul Unedig Deiniolen Yn ddiweddar penderfynodd plant yr Ysgol Sul gynnal gweithgaredd codi arian tuag at Cymorth Cristnogol a Tŷ Gobaith. Aethpwyd ati i drefnu taith feics o Lanwnda i Fryncir ac yn ôl. Gohiriwyd y daith wreiddiol ym mis Mawrth oherwydd tywydd garw ond fe'i hail-drefnwyd ar gyfer dydd Sul, Mehefin 9fed, gyda'r plant, athrawon yr ysgol a rhieni yn cymryd rhan.

Cafwyd diwrnod hynod o braf a thaith fendigedig ar hyd y Lôn Beics gyda phicnic mawr i orffen yn Lanwnda. Mwynhawyd y daith yn fawr gan bawb a gymrodd ran er bod coesau ambell un yn brifo'r diwrnod wedyn!

Hoffai'r plant ddiolch yn fawr i Geraint am gludo'r beiciau o Ddeiniolen ac yn ôl ac i bawb a fu mor hael yn eu nodd. Diolch yn fawr iawn.

Peidiwch gori ar stori

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfringu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



Gwasanaeth Gwres
a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Ras Gobaith – a diolch.

Roedd yn noson arbennig yn Neiniolen yn ystod eu hwythnos gweithgareddau haf. Cynhaliwyd ras 10 cilometr o amgylch ffyrdd y pentref a ddenodd redwyr o bob rhan o ogledd Cymru a swydd Caer. Ond er cymaint y sylw a'r gefnogaeth a roddwyd i'r rhedwyr, hogyn lleol a gerddodd gwr y ras gafodd y gymeradwyaeth fwyaf o lawer.

Dioddefodd Dylan Lewis anafiadau difrifol mewn damwain moto beic ger Llanberis, a threuliodd ddeg diwrnod mewn adran gofal dwys cyn cael ei drosglwyddo i ysbyty arbenigol yn Lerpwl. Bu yno am dros wyth wythnos mewn coma, a threulio chwe mis wedyn yn Ysbyty Gwynedd yn gwellu'n raddol. Mae'n parhau i dderbyn triniaethau sy'n gymorth i'w adfer i lawn iechyd.

Penderfynodd gerdded cwrs 10 cilometr Deiniolen i godi arian i uned ddamweiniau Ysbyty Gwynedd er mwyn eu galluogi i brynu offer a thegannau i blant sy'n cael eu hanfon yno. Dywedodd mai'r gofal a gafodd yn yr Uned Ddamweiniau a achubodd ei fywyd: heb ymroddiad y staff yno, fyddai ddim wedi byw i gael y triniaethau diweddarach yn Lerpwl.

Roedd cwblhau'r ras yn arwydd o ddiolch i staff yr Uned Ddamweiniau, ond hefyd yn arwydd o'r gobaith am adferiad llwyr i Dylan maes o law.



Parhad Braint i'r Marchog.

Daeth yma'n benodol i gefnogi dathliad beicio Etape Eryri, gan feicio'r Etape Bach ar y Sul yng nghwmni hen gyfeillion a chefnogaeth llu o'r trigolion lleol.

Roedd y croeso a dderbyniodd ef a'r teulu yn nodweddiadol o'r ardal; y gymuned glos, gyfeillgar y bu'n rhan ohoni tra'n ddisgybl yn Ysgolion Gwaun Gynfi a Brynrefail, ac yn beldroediwr i dimau Llanrug a Llanberis.

Talodd ymweliad hefyd â'i hen ysgol yn Neiniolen er mawr syndod pleserus i'r disgyblion. Cyflwynodd nifer o anrhegion i'r ysgol gan gynnwys crys beicio Team Sky.



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrwyr dros **21 oed!**



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddol y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION



ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffoedd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4-34.9 (3.6-8.1), Extra Urban 88.2-62.8 (3.2-4.5), Combined 83.0-48.7 (3.4-5.8) a CO2 87-135

Pen-blwydd Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 98 mlwydd oed ar 11 Mehefin. Yr oedd yn y capel y Sul blaenorol, hefyd bu iddi fwynhau yr achlysur yn fawr iawn gyda'r plant a'r teulu o'i chwmpas. Gobeithio, Mrs Morris, y cewch nerth ac iechyd i fwynhau y flwyddyn sydd o'ch blaen. Pob lwc.

Diwedd Tymor Wel, y mae diwedd tymor yr arholiadau yn y colegau a'r ysgolion yn y golwg yn awr ac yr wyf yn sicr fod yr ieuencid yn hynod o falch o weld yr arholiadau o'u hôl. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb oedd yn sefyll arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd.

Gwyliau hapus i chwi i gyd a gobeithio y bydd yr haul yn gwenu ar bawb. Pob lwc a hwyl fawr i bawb fel y gallwn ddweud ein bod wedi mwynhau tymor y gwyliau.

F, CWMY GLO W

Priodas Dydd Llun, 27 Mai, yng Nghapel Hyfrydle, Betws-y-Nrhos, Abergele, priodwyd Keith Williams, Bryn, â Rhian Hughes o Fodedern, Ynys Môn. Roedd y wledd briodas ym Meifod, Bontnewydd.

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r pâr ifanc sydd wedi ymgartrefu ym Mae Colwyn.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd Brian Jones a Mrs Olwen Jones, Cefn Bwlch, yn eu profedigaeth lem o golli mam Olwen, Mrs Jennie Hughes, yng Nghartref Plas Pengwaith Llanberis, gynt o Lanrug, yn 99 mlwydd oed.

E TAN-Y-COED W

Gwasanaethau Capel Tanycoed

Gorffennaf 7: 11.00 a.m. – Y Parchg John Pritchard
 Gorffennaf 14: 11.00 a.m. – Y Parchg Dafydd P. Morris
 Gorffennaf 21: 11.00 a.m. – Y Parchg John Pritchard
 Gorffennaf 28: 11.00 a.m. – Mr Huw Roderick
 Awst 4: 11.00 a.m. – Oedfa
 Awst 11: 11.00 a.m. – Mr Eirwyn Vaughan
 Awst 18: 11.00 a.m. – Y Parchg Robert O. Roberts
 Awst 25: 11.00 a.m. – Y Parchg John Pritchard

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, parffion, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS RHIWLAS

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Llongyfarchiadau i Emlyn Baylis am drefnu a gosod gwely o flodau o flaen ein Siop Spar. Does dim sail i'r newyddion fod nifer o ddefaid rhydd y pentref yn siopio yn Spar nawr!

Diolch Dymuna Louie Pritchard, 20 Dôl Eilian, Llanberis, ddiolch o galon am garedigrwydd teulu, ffrindiau a chymdogion ac am bopeth a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

Côr Meibion Dyffryn Peris Fe gychwynnodd “tymor prysur” y Côr gyda chyngerdd yn Eglwys y Drindod, Llandudno, ar nos Sul, Mehefin y 9fed. Yn ystod y misoedd nesaf byddant yn ymweld â Llandudno, Betws Y Coed a Llanberis.

Diolch Dymuna Ernest Owen, 8 Rhos Efrog, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn i bawb.



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

GWASANAETH GARDDIO OWEN

**GWAITH GARDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO**

**FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO**

07901 648008



Elain Alaw a Chester

Llongyfarchiadau mawr i Elaine Alaw Morgan, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, am gael ail mewn cystadleuaeth Marchogaeth yn yr Wyddgrug ar gefn Chester. Mi fydd Elaine a Chester yn mynd i'r Genedlaethol yn Hartpury, Gloucester.

Diolch Dymuna teulu y ddiweddar Marion Jones, 19 Hafan Elan, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau o bell ac agos am eu caredigrwydd a'r gefnogaeth a gawsom yn ystod ein profedigaeth o golli Marion mor sydyn. Mam, merch, chwaer, modryb a ffrind i lawer, bydd y golled yn enfawr.

Diolch hefyd am y niferus gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau i'r tŷ. Roeddent yn gysur mawr a diolch am y rhoddion hael ar cofam Marion at Muscular Dystrophy.

Diolch yn fawr i'r holl ofalwyr a fu yn edrych ar ei hôl dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd bob amser yn falch o'ch gweld. Diolch i fois yr Ambiwlan, Ward A & E Ysbyty Gwynedd a Ward Cybi a fu mor ofalus o Marion ar ôl ei llawdriniaeth.

Diolch yn fawr iawn i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am y gwasanaeth arbennig a diolch i'r organydd, Dr William Murno, am ei wasanaeth. Diolch yn fawr i Dylan a Meinir Griffith, am eu cymorth a holl drefniadau yr anglad a diolch i bawb am eu presenoldeb ar ddiwrnod ei hangladd.

Profedigaeth Estynnwn ein

Sefydliad Coffa

Enillwyr Clwb Cant mis Mai
1..Alf Parry, Bryn Heli
2..Mrs M Roberts, Tai Minffordd
3..Mrs M Parry, Bryn Heli

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant mis Mehefin
1..Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug
2..Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug

cofion diffuant at ddau deulu yma yn y pentref sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Mary a John Roberts a'r teulu, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, yn dilyn marwolaeth mam Mary, sef Mrs Rosie Mary Evans, Llangefni

Rhiannon a Ken a'r plant, Nant y Glyn, yn dilyn marwolaeth mam Rhiannon o Lanberis.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siân Williams, 35 Nant y Glyn, ar lwyddo mewn arholiad piano Gradd 6 yn ddiweddar. Ardderchog wir.

Brysiwch Wella Da yw deall fod Islwyn Jones, 7 Bryn Moelyn, wedi cael dod adref o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i'w goes. Hefyd Iolo Llywelyn, Pant Afon, sydd wedi cael damwain tra ar ei wyliau.

Hefyd dymunwn wellhad buan i Allan Vincent Owen, 4 Rhos Rug, a Dafydd Arfon Jones, Stad Minffordd. Brysiwch wella a chofion gorau atoch i gyd.

Arholiadau Erbyn hyn mae y rhan fwyaf o'r arholiadau TGAU a'r lefel Uwch wedi eu cwblhau. Dymunwn bob llwyddiant i chi i gyd a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Llŷr Roberts, Bedw Gwynion, ar ei benodi'n Uwch Ddarlithydd Busnes a Marchnata gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y De Dwyrain. Bydd yn arwain modiwlau Marchnata ac Ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n edrych ymlaen at groesawu myfyrwyr o ardal Eco'r Wyddfa i astudio Busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Mehefin 11, aeth nifer dda o aelodau i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog, a chafwyd sgwrs hynod ddifyr gan Dr Ann Williams, cyn-weithiwr yn Amgueddfa Sain Ffagan ac arbennig-wraig ar hen feddyginiaethau a pherlysiâu. Tywyswyd yr aelodau o amgylch yr ardd oedd yn llawn o amrywiol berlysiâu ac roedd arogl rhai ohonynt yn dwyn atgofion melyn a chwerw i bawb. Diolchwyd i Dr Ann Williams a Marian Roberts am y croeso twymgalon ac am orig fendithiol dros ben. I orffen y noson cafwyd pryd o fwyd tri chwrs yn Ty'n Llan, Llandwrog a dymunir diolch i Olwen a Linda am y trefniadau trylwyr ac am ofalu am y raffl.

Manteisiodd Mair Huws, Llywydd y Gangen, ar y cyfle i ddiolch i bawb am y gefnogaeth a'r cydweithrediad drwy'r tymor a diolchwyd i Mair am ei llywyddiaeth fywiog a hwyliog gan Nan. Llongyfarchwyd Eurgain Haf ac Ioan ar ddod yn rieni balch i Cian Harri a dymuniadau da i Ann a Dafydd fel nain a thaid lwcus am y trydydd tro. Llongyfarchwyd Guto Wynne

ar raddio fel Milfeddyg a dymuniadau da iddo yn ei swydd yn Nolgellau. Deallir fod Cari yn dathlu pen-blwydd arbennig mis nesaf – pob dymuniad da, Cari. Anfonir ein cofion gorau a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Eirian wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Pob bendith i Urien a Rhian ar eu priodas yn Rhydaman yn mis Awst a phob dymuniad da i Heulwen a Deiniol ar y paratodau. Llongyfarchwyd Bedwyr Williams, mab yng nghyfraith Menna, gyda'i arddangosfa 'The Starry Messenger' sydd wedi ei gosod fel planetariwm yn Pontio Bangor.

Llongyfarchiadau i Mair a Margaret ac aelodau'r Pwyllgor Anabl ar lwyddo i gasglu dros £500 tuag at yr elusen 'Clic'.

Wedi tymor hynod o ddifyr ac amrywiol o Fedi 2012 – Mehefin 2013, bydd y Gangen yn ailgychwyn ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi am 7.30 yn y Sefydliad Coffa. Mae croeso cynnes i aelodau newydd a chroeso arbennig i Ddysgwyr y Gymraeg.

Cylch Meithrin – Pêl Bonws Llongyfarchiadau i'r enillwyr diweddar: Mai 18: Eryl Roberts – rhif 15; Mai 25: Mair Hughes – rhif 43; Mehefin 1: Eirianwen Thomas – rhif 9; Mehefin 8: Tomos, Berian a Betsan – rhif 14; Mehefin 15: Elliw a Lleucu Jones – rhif 27.

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi ar hyd y flwyddyn. Casglwyd £1,000 i'r Cylch Meithrin. Bydd yn ail ddechrau ym mis Medi – felly beth am ymuno? Ceir mwy o wybodaeth gan Anti Gwen yn y Cylch Meithrin.

Capel Rhos

Bedydd Ar Mehefin 16eg, gyda'r gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Anna Fflur. Mae'n ferch fach i Donna ac Owain, Pant Tirion; yn wyres i Sharon a Bryan ac yn orwyres i Mr. Twm Davies. Pob bendith i'r teulu bach.

Anfonwn ein cofion gorau at Mr. Iolo Llywelyn sydd yn gwella ar ôl y ddamwain a gafodd tra ar ei wyliau.

Pob dymuniad da i blant ac athrawon yr ysgol Sul fydd yn mynd i Gelli Gyffwrdd ar y trip blynyddol. Hefyd, mae nifer o'r plant yn mynd i Goleg y Bala yn ystod yr haf. Gwyliau hapus i bawb a diolch am gadw'n ffyddlon i'r ysgol Sul ar hyd y flwyddyn.

Dymunwn yn dda hefyd i'n gweinidog – Y Parch. Marcus Wyn Robinson - fydd yn llywyddu y Cyngor Eglwysig a gynhelir ym Mudapest ddechrau mis Gorffennaf.

Cynhelir Bore Coffi yn Hafan, Ffordd Glanmoelyn (tŷ Gwyndaf a Mair) ddydd Mawrth, Gorffennaf 16 rhwng 10 a 12 o'r gloch. Bydd yr elw y tro hwn yn mynd at weithgareddau plant a phobl ifanc sydd dan ofal Mr. Andrew Settatee yng Nghynllun EFE. Croeso cynnes i bawb.

Oedfaon mis Gorffennaf

Gorffennaf 7 – Trefniant gan yr aelodau
Gorffennaf 14 – Robert Capon
Gorffennaf 21 – Parch. Marcus Wyn Robinson
Gorffennaf 28 – Parch Trefor Jones

Newyddion Ysgol
Gynradd
Mynd am dro...



Cynhaliwyd noson blasu gwin yn Sefydliad Coffa, Llanrug. Cafwyd noson ddifyr gyda'r Parchedig Marcus Robinson yn rhoi hanesion am y gwahanol winoedd a phawb yn cael cyfle i'w blasu. Roedd yr elw yn mynd tuag at y gost o fynd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro ym mis Mehefin. Diolch yn fawr i'r Parchedig Robinson ac i Mrs Mair Huws a Mr Rhodri Llwyd am drefnu'r noson. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd at y raffl.

Cynhaliwyd ffair haf yn yr ysgol. Roedd y ffair wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rieni Ac Athrawon yr ysgol. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol cafwyd noson ddifyr gyda llawer yn mwynhau y stondinau, tombola, peintio wyneb, castell neidio ac yn manteisio ar y cyfle i wlychu Mr Williams a Mr Griffith yn y stocs! Cafwyd adloniant gwerth chweil hefyd gyda Mr Jonathan Davies yn canu, arddangosfa o sgiliau karate gan rai o ddisgyblion Burman's Martial Arts a sioe ddawns gan

griw o Angylion Kelly. Roedd llawer o unigolion a chwmnïau lleol wedi cyfrannu gwobrau hael at y raffl. Diolch i bob un ohonynt am eu cefnogaeth ac i bawb a fu'n brysus yn trefnu ac yn cynorthwyo yn y ffair. Cafodd plant y dosbarth meithrin, derbyn, blwyddyn 1 a 2 gyfle i weld sioe 'Gwyn' gan Gwmni Theatr y Frân Wen yn Theatr Seilo, Caernarfon. Roedd yn sioe werth chweil a mwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn. Aeth disgyblion blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Llanberis

fel rhan o'u gwaith thema 'Mynd Am Dro'. Roeddent yn ymchwilio i'r nodweddion a oedd yn denu ymwelwyr i Lanberis. Cawsant amser prysur yn edrych ar raeadr Ceunant Mawr, trên bach yr Wyddfa, trên bach y llyn, castell Dolbadarn, llyn Padarn, yr Amgueddfa Lechi a thai'r chwarelwyr. Roedd pawb wrth eu bodd pan gawsant ymweld â Ysbyty'r Chwarel. Roedd yn ddiwrnod prysur iddynt ond, er y tywydd anffafriol, bu'n daith fuddiol iawn i'r holl ddisgyblion.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig. Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



MABOLGAMPAU 2013



Ar ddydd Gwener, 17eg Mai 2013, fe gynhaliwyd y Mabolgampau blynyddol ar gaeau Ysgol Brynrefail. Er bod y tywydd braidd yn oer ar ddechrau'r bore yr oedd y cystadlu yn frwdfrydig o'r dechrau cychwyn, gyda'r dorf, nad oedd yn cystadlu, yn cefnogi ffrindiau a'u tai yn frwdfrydig.

Fe welwyd rasys agos, neidio hir ag uchel gyda'r cystadleuwyr yn ymdrechu eu gorau, gwaywffyn oedd

yn chwipio mor bell eu bod yn beryg bywyd!

Ac agos iawn y bu hi eleni rhwng y tai ond Eilian a orfu gyda chyfanswm o 1010 o bwyntiau. Agos iawn fu hi rhwng y tai eraill gyda Gwyrfa'i yn gorffen ar 881, Eryri 853 ac Elidir ag 827.

Ac ar ddiwedd y dydd felly, y Capteiniaid buddugol Alaw Prys a Dafydd Llywelyn gafodd y fraint o godi'r cwpan.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

PROM 13



Yng nghanol tymor yr Hydref fe gynhaliwyd cyfarfod o Gyngor yr Ysgol ac un eitem ar yr agenda, oedd yn ddryswch i bawb, oedd Prom Ymadael Blwyddyn 11. Cam cyntaf oedd hwn, gan ein Dirprwy Bennaeth Mrs Ellen Williams, i sefydlu cnewyllyn o syniad am ddathlu ymadael blwyddyn 11 a thrwy hynny dathlu eu cyfraniad, dros gyfnod, i fywyd yr ysgol. O'r hedyn gwreiddiol hwn fe ddatblygwyd Prom 13 a flodeuodd i fod ymhlith y dathliadau harddaf a gynhaliwyd erioed fu'n gysylltiedig ag Ysgol Brynrefail.

Ac ar ganol mis Mai fe welwyd harddwch arbennig blwyddyn 11 yn ymgynnull yn neuadd yr ysgol. Rhaid cyfaddef bod harddwch y merched yn wefreiddiol ac nid yn aml y mae cysylltu'r gair 'harddwch' â'r hogiau ond roeddynt hwy yn edrych yn ysblennydd hefyd. Cyn bo hir aeth y neges o gwmpas yr ysgol a staff yn ymgynnull gydag ambell ddeigryn mewn llygad. I fyny â nhw i Westy'r Fictoria yn Llanberis ac eistedd i flasau cinio swmpus, a fel oedd rhai yn deud, pwddin gwell!

Wyddoch chi be'? Nid oedd yr un hogyn o flwyddyn 11 yn bresennol ond yr oedd lluo o ddynion ifanc. Ni welwyd yr un ferch ifanc ond lluo o ferched mwyaf harddaf welsoch chi erioed.

Ac felly bu blasu a bwyta, bu sgwrsio a chwerthin, bu cofio ac edrych ymlaen tra roedd y rhai oedd yn gweini yn edrych yn gyfarwydd hefyd!

Ac yn dilyn y wledd bu disgo a gwobrwyo rhai aelodau o flwyddyn 11. Yr oedd pawb o'r flwyddyn wedi pleidleisio o flaenllaw ar gyfer dewis 'Sêr y Flwyddyn' a'r enillwyr, pob un, yn cymryd rhan â gwên ar eu hwynebau. Doedd ond un peth o'i le gyda'r holl ddiwrnod - fe ddaeth y dathlu i ben!

Ac felly fe ymadawodd merched a dynion ifanc blwyddyn 11 eleni â'r ysgol. Efallai, pwy a ydych chi, fe welwn rai yn ôl yn y chweched dosbarth. Ond wyddoch chi be? Mae pob un ohonynt yn mynd i gofio eu diwrnod ymadael a oedd, wedi trefniant godidog Mrs Ellen Williams, yn ddiwrnod i'w gofio.



Y plant ar eu beics.

Cylch Ti a Fi Mae'n agosau at ddiwedd y flwyddyn i'r Cylch ac mae'r trip a'r parti blynyddol wedi eu cynnal, y naill ar Fehefin 13 i Barc Gelli Gyffwrdd, a'r llall yn Neuadd y Pentref ar Fehefin 20ed. Fe gafodd y rhai bach hwyl ar y ddau achlysur - hynny ar ben y sbri eto eleni wrth i'r Daith Feicio Noddedig fynd rhagddi. Diolch yn fawr i blant a rhieni'r Cylch am gefnogi'r daith. Fe aeth

yr arian a godwyd tuag at gynnal y trip a'r parti. Mae'r cylch wedi hen ennill ei blwyf ers ei sefydlu bedair blynedd yn ôl ac mae croeso o hyd i aelodau newydd. Diolch i'r holl blant, yn aelodau presennol ac o'r gorffennol, am reidio eu beics yn galed i godi'r arian, ac i bawb a wnaeth eu noddi.

ECO Mae na ddwy o'r pentre yn casglu newyddion i'r Eco ar gyfer Penisarwaun erbyn hyn - felly cofiwch yrru eich straeon at Anna-Marie drwy ecopenisarwaun@hotmail.co.uk neu eu danfon drwy'r post i Katie Williams.

Carnifal a Gweithgareddau Eraill Fe gynhelir yr wythnos Weithgareddau eleni rhwng Gorffennaf 7fed-13eg.

Fe ddechreuir y gweithgareddau gyda Cymanfa Ganu yn yr Eglwys, nos Sul Gorffennaf 7fed, am 6.30yh, gyda eitemau gan John Eifion a Chôr o'r Ysgol Gymuned.

Nos Lun, Gorffennaf 8fed - Bingo yn neuadd yr Eglwys am 6.30yh.

Nos Fawrth, Gorffennaf 9fed - Gyrfa Chwist yn neuadd yr Eglwys am 7.30yh.

Nos Fercher, Gorffennaf 10fed - Mabolgampau i bob oed ar cae yr Ysgol am 6yh.

Nos Iau, Gorffennaf 11eg - Disgo yn neuadd yr Eglwys am

6.30yh.

Nos Wener, Gorffennaf 12fed - Helfa Drysor i ddechrau o neuadd yr Eglwys o 6yh hyd at 6.45yh a diwedd mewn gwesty am fwyd.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg fydd diwrnod y Carnifal ei hun ar gae yr Ysgol. Mi fydd yr orymdaith yn cychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30yp. Stondinau, Castell Neidio, Gemau, Raffl, Siop, Sêl Cist Car, hufen ia ayyb.

Croeso cynnes i bawb ymuno yn hwyl yr holl ddigwyddiadau. Derbynnir rhoddion neu wobrau tuag at y gweithgareddau yn ddiolchgar trwy law Jean Jones, Janet Ash, Jennifer Hughes neu Selwyn Griffith.

Babis **Newydd**

Llongyfarchiadau calonnog i Rhian a Darren ar enedigaeth eu merch, Loti Mai, chwaer fach i Guto a Megan Ebrill a wyres i Carole Ann a Kevin (Mrs Jones, Ysgol Penisarwaun).

Hefyd, llongyfarchiadau i Anna a Shaun ar enedigaeth eu merch, Cia Haf June Jones, chwaer fach i Cynan, a wyres eto i Carole Ann a Kevin (Mrs Jones, Ysgol Penisarwaun). Nain a thaid prysur iawn dybiwn ni!

Llongyfarchiadau mawr i Eurgain Haf a Ioan, a croeso mawr i Cian. Llongyfarchiadau hefyd i'n nain a thaid balch, Ann a Dafydd ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Yr A470 yn gyfarwydd iawn i chi erbyn hyn!

Llongyfarchiadau Pen-blwydd Hapus iawn i un o antis mwyaf poblogaidd y pentre, Anti Liz, sydd yn dathlu carreg filltir arbennig eleni. Mi fydd yn cael y pleser o deithio am ddim ar fsysus yr ardal o hyn ymlaen!

Arholiadau Pob lwc i holl bobl ifanc y pentref sy'n sefyll arholiadau TGAU a Lefel 'A' - edrychwn ymlaen i glywed am eich llwyddiannau yn rhifyn

mis Medi o'r Eco.

Croeso Pob bendith i Eurgain Haf ac Ioan Tomos, Rhiwen, Pontypridd ar ddod yn rieni balch i Cian Harri. Llongyfarchiadau i Ann a Dafydd ar ddod yn nain a thaid lwcus am y trydydd tro, ac i Eyron a Denise, Hengoed, Caerdydd.

Eisteddfod **Bentref**

Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 5ed am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Cystadlu hyd Blwyddyn 6 i blant y pentref yn unig ond o Flwyddyn 7 i fyny yn agored. Bydd angen copi o'r cystadlaethau hunan ddewisiad i'r beirniaid a'r cyfeilydd, Lois Eifion. Y mae'r ymarferion yn cael eu cynnal bob nos Lun o 6 o'r gloch tan 7.30. Copiau o'r testunau ar gael o hyd drwy law'r ysgrifennydd, Ann Ifans, Ffôn: 01286 872407, neu Sycharth, 5 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

Edrychir ymlaen am Eisteddfod fyrlymus eto eleni.

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYN Taf
2 AWR AM BRIS 1

GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Siop Bach Penisarwaun Mae gan y pentref dair gwraig fusnes graff! Fe gafodd y trigolion wledd wrth i Enlli Williams, Elin Thomas ac Elli Morris agor siop a chaffi un p'nawn Sadwrn diweddar yn gwerthu paneidiau, chacennau a phethau da i rai oedd yn mynd heibio iard yr ysgol. Roedd y tair wedi hybu'r gweithgaredd drwy fynd â phamffledi i dai'r trigolion ymlaen llaw, ac fe ddaeth sawl un draw i gael sgwrs a chymdeithasu dros baned. Roedd y weithred yn rhan o waith y byddan nhw'n ei wneud yn yr ysgol yn fuan, a bu'n werthfawr yn eu haddysgu am y ffordd a'r gost o redeg busnes. Da iawn ferched! Debyg mai ar Dragon's Den bydd eu hymddangosiad nesaf!



Y genethod yn y siop.



Atgofion Pryd aeth y merched crand yma am drip o Benisarwaun i Landudno 'dwch? Mae'n bosib y byddech yn adnabod rhai o'r wynebaw – o'r chwith i'r dde yn y cefn mae Mrs Clarke a Miss Williams, dwy chwaer oedd yn nyrsio, Mrs Annie Williams (Fron Hywel), Mrs Williams (Gors) a Mrs Mary Davies (Anti Mary). Yna yn y rhes flaen mae Mrs Mary Williams (Tyddyn Waen) a Mrs Nell Davies, Tai Newyddion. Am smart ydy nhw yn eu hetia.

Cronfa'r Enillydd y bël bonws mis Ebrill oedd Mr Dave Ash Commercial Cottage gyda rhif 26, a Mis Mai Miss Mair Foulkes rhif 43 Llongyfarchiadau iddynt.

Symud Cartref - Dymuniadau gorau i Miss Nancy Williams sydd wedi symud i'w chartref newydd yn 9, Llys y Gwynt. Roedd wedi trigo yn 15, Bryn Tirion am 37 o flynyddoedd.

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Diogelwch Tan – Pnawn dydd Mercher Mai 15fed daeth Gwawr o'r Gwasanaeth Tan i sgwrsio gyda'r plant am y pwysigrwydd o ddiogelwch tan.

Gŵyl Gyfeiriannu - Cafodd disgyblion Bl 3 i 6 gyfle i gymryd rhan yn yr Ŵyl Gyfeiriannu yn Parc Padarn Llanberis pnawn dydd Gwener Mai 24ain. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Gweithdy – Cafodd disgyblion CA2 gyfle i gymryd rhan mewn Gweithdy Siapiau Swm dan arweiniad Manon Llwyd rhwng Mehefin 14eg ar 21ain. Roedd cyfle i bawb wneud gwahanol symudiadau i gerddoriaeth. Cawsant hwyl fawr yn ystod y cyfnod yma.

Diwrnod Diogelwch y Traeth – Cafodd Bl 5 a 6 hwyl fawr yn treulio diwrnod ar y traeth yn Rhosneigr ar Fehefin 17eg. Bwriad y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth y plant o beryglon sydd yn bodoli ar draeth gan gynnwys diogelwch yn y dwr.

Llongyfarchiadau - Dyna ddymunwn i Daniel Parkinson a Llion Maxwell am fynd trwodd i rownd derfynol Gŵyl Gyfeiriannu Gwynedd ar Fehefin 28ain.

Symud Dosbarthiadau - Bu dydd Mercher 26/7/12 yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol. Cafodd pawb gyfle i symud i fyny i'r dosbarth

y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd - Cafodd Bl 6 gyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Gwener Mehefin 28ain. Dymunwn y gorau i Catrin Elen a Twm pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno yn Mis Medi.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen - Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys Nos Sul 7/7/13 am 6:30 o'r gloch. Bydd eitem gan blant yr Ysgol yn ystod y noson a gwerthfawrogwn gael eich cefnogaeth os gwelwch yn dda. Trip diwedd Tymor yr Haf - Bydd Dosbarthiadau Derbyn a Bl 1 a 2 yn mynd i Gelli Gyffwrdd dydd Llun Gorffennaf 8fed. Ar yr un diwrnod bydd Dosbarthiadau 3,4,5 a 6 yn cael mynd i Ganolfan Conwy yn Llanfairpwll ble byddant yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gwahanol.

Gwyliau Haf - Bydd yr Ysgol yn cau dydd Gwener Gorffennaf 19eg ac yn ail agor i'r plant dydd Mawrth Medi 3ydd.

GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored ac hefyd Stôf goed a "Multi Fuel" Aga/Rayburn- Olew/Nwyr Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones (01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario? Ydych chi yn berson cymdeithasol? Hoffech chi wneud gwahaniaeth? Fedrwn chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi Unigolion dros 50 oed sydd angen cwmniath.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda: **NIA HAF JONES** 01286 685929 nia@mantellgwynedd.com

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn: **(01286) 673574**

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref Cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!



CHWILOTA

Treuliodd ynadon Caernarfon dros dair awr ar ddydd Sadwrn ddechrau 1908 yn trafod anghydfod ym mhentref Ebenezer y noswaith cyn y Nadolig ychydig wythnosau ynghynt. Mae'n ymddangos ei bod yn arferol gan Fand Cynfi (fel y gelwid y band bryd hynny), i fynd o amgylch y pentref cyn y Nadolig i ganu carolau, ond tra'n aros ar y sgwar, dechreuodd rhai o'r gwrandawyr weiddi arnynt, ac aeth pedwar o drigolion y pentref ati i wthio yn erbyn y banjars, gan ganolbwyntio, am rhyw reswm ar yr un oedd yn chwarae'r drwm. Er i nifer o'r gwrandawyr a'r heddeidwad lleol geisio eu perswadio i beidio, gwaethygu roedd y sefyllfa, a'r diwedd fu i'r drwm gael ei gicio a'i dorri. Rhybuddiwyd Robert Owen Jones a Richard Williams, Stryd Newydd i beidio aflonyddu ar y band. Ateb y cyntaf oedd: "Serfio nhw'n iawn. Dydi o ddim gwaeth nac a wnaethon nhw i'r lampau."

Peidiodd y band a chwarae pan dorwyd y drwm, a bu bron i bethau fynd yn derfysg. Arestwyd John Rowland Jones, Stryd Tabernacl (yr honwyd iddo gicio a thorri y drwm), Thomas Jones, Stryd Vaynol a'r ddau arall o darfu ar yr heddwch. Yn ôl pob tystiolaeth, roedd y pedwar

a arestiwyd yn canu emynau un funud ac yn rhegi'r band y funud nesaf!

Yn y llys cafwyd ar ddeall mai asgwrn y gynnen oedd ffrae rhwng y band a chôr lleol. Yr oedd y côr (ni cheir enw iddo) yn cynnal ysgol ganu mewn ystafell a ddefnyddiai'r band ers rhai blynyddoedd i ymarfer. Yr oedd y band, ar eu cost eu hunain, wedi mynd i'r drafferth i brynu a gosod lampau oel yn yr ystafell er mwyn cael mwy o olau i ymarfer yn ystod nosweithiau'r gaeaf. Roedd y band yn ddigon bodlon i'r côr ddefnyddio'r lampau pan fyddent hwythau'n ymarfer, ond yn gofyn am gyfraniad o naw ceiniog tuag at oel lamp bob tro roeddent yn eu defnyddio. Gwrthododd y côr dalu'r cyfraniad, a'r canlyniad oedd i'r lampau gael eu cadw gan y band a'u defnyddio ganddynt hwy yn unig. A'r creadur anffodus a oedd yn gyfrifol am gadw'r lampau oedd David William Hughes, Stryd Vaynol, chwaraewr y drwm. Fo felly, oedd yn cael ei dargedu gan y pedwar afreolus - ac aelodau o'r côr - fel yr un oedd yn gyfrifol am amddifadu'r côr o olau i ymarfer!

Cafwyd awgrym cryf fod y pedwar diffynnydd yn feddw. Pa eglurhad arall oedd o ymddygiad ble roeddent yn canu emynau a rhegi'r band ar yn ail? Ond roedd yr amddiffyniad yn honni eu bod,

Lampau Oel, Drwm a Chythraul Canu yn Ebenezer.



Ebenezer ychydig flynyddoedd cyn helynt y Cythraul Canu.

gyda gweddill y côr, wedi bod yn cynnal cyngerdd mewn capel yn Ebenezer y noson honno! Honnid hefyd fod y band wedi bod yn chwarae y tu allan i'r capel ble roedd y cyngerdd cyn i'r cyngerdd orffen, a'u bod wedyn wedi symud ymlaen i ran arall o'r pentref, ac mai canlyniad yr 'ymyrraeth' hwn gan y band oedd yr achos i'r pedwar amddiffynnydd ymyrryd â pherfformiad y band yn ddiweddarach.

Roedd hi'n amlwg fod pethau'n hanner dwsin o un a chwech o'r llall! Taflwyd allan yr achos o darfu ar yr heddwch yn erbyn pob un o'r amddiffynwyr. Ond, aethpwyd ymlaen â'r cyhuddiad o achosi niwed maleisus i'r drwm gan John Rowland Jones.

Tystiodd y drymiwr, David William Hughes iddo weld John Rowland Jones yn rhoi cic i'r drwm, ac iddo'i niweidio i'r fath raddau fel y bu'n rhaid i'r band dalu tair punt a thri swllt i'w drwsio. Yr oedd Morris Jones, cigydd o Ebenezer,

hefyd yn tystio iddo weld y diffynnydd yn cicio'r drwm.

Gwadodd John Rowland Jones y cyhuddiad. Nid oedd ganddo deimlad drwg yn erbyn y band na'r drymiwr, meddai. Cyfaddefodd iddo fod yn gweiddi ar y stryd, ond cefnogi'r band a wnai nid eu gwawdio. Honnodd nad oedd yr heddeidwad wedi dweud dim wrtho, yn sicr, ni wnaeth ei rybuddio am fod yn afreolus. Ni allai fod wedi cicio'r drwm am fod gwr o'r enw William Davies rhyngddo â'r drymiwr. Ond cafwyd John Rowland Jones yn euog, a chafodd orchymyn i dalu'n llawn am y difrod i'r drwm, a thalu costau'r erlyniad hefyd; cost eithaf drud i chwarelwr yn y cyfnod hwnnw.

Doeswybod beth fu'r berthynas rhwng y côr a'r band yn ystod yr wythnosau a'r misoedd dilynol. Os oes rhywun yn gwybod, rhowch alwad. A thybed a oes disgynyddion y rhai fu'n ymwneud â'r achos yn dal i fyw yn Neiniolen heddiw?

TIM JONES
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Cronfa Goffa R. H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r Ysgrifennydd-

John H. Hughes
"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis
Gwynedd LL55 4SH
Ffôn-(01286) 871562

Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn **MEDI 30ain 2013**
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ol y dyddiad cau penodedig



Bysus D.M. Pritchard, Llanrug.

Anfonwyd y llun gan Gareth Pritchard (Tan y Coed gynt). Mae'n credu fod y llun wedi ymddangos yn yr "Eco" flynyddoedd yn ôl. Ond dyma fo eto, gydag enwau rhai o'r dynion:

Rhes gefn (trydydd o'r chwith) David John Pritchard (tad Gareth), a oedd yn gweithio'n y chwarel gydol yr wythnos, ond yn gweithio fel 'conductor' ar y bysus bob Sadwrn. Wrth ei ochr, yn yr het, mae Eric Morris, ymhell cyn iddo fentro ar ei liwt

ei hun a sefydlu Cwmni Arvonnia. Ar y pen eithaf ar y dde mae Robert Williams (Bob Twr) cyn iddo gymhwyso'i hun yn athro. Yn ddiweddarach, bu'n brifathro Ysgol Brynaerau. Ysgrifennodd lawer am hanes bysus bach y wlad yn rhifynnau cynnar yr "Eco". Rhes flaen (o'r chwith): Tom Pritchard (Twm bach D.M.), ewythr Gareth, a fu'n gweithio i Gwmni Crosville wedi hynny. Efo'r ci mae Frank Pritchard (mab D.M.) a fu'n bostfeistr yn Llanrug, yn gynghorydd sir ac yn rhedeg y busnes ar ôl ei dad. Yn yr het, D.M.Pritchard ei hun, postfeistr a pherchennog y busnes.

Llwyddiant Ysgol Betws Garmon.

Mae'r llun a ddangosir ar y dudalen hon yn dangos holl blant Ysgol Betws Garmon yn 1908 – dros ddeg ar hugain ohonynt. Nid yw safon y llun yn dda iawn, ond fe'i hanfonwyd yn ystod y flwyddyn honno i Arddangosfa Ffrainc a Phrydain yn Llundain. A'r rheswm am hynny? Gan Ysgol Betws Garmon roedd y presenoldeb uchaf yn Sir Gaernarfon am y flwyddyn addysgol, sef 99.7%. Gan Sir Gaernarfon hefyd yr oedd y presenoldeb uchaf o holl siroedd Cymru, ac yn ôl Yr Herald Cymraeg, "presenoldeb Betws Garmon yw yr uchaf drwy yr holl deyrnas." Yr hyn sy'n gwneud y canran mor ganmoladwy yw'r ffaith nad oes yr un o ddisgyblion yr ysgol yn byw o fewn chwarter milltir iddi, a phob un yn gorfod cerdded i'r ysgol mewn ardal fynyddig gyda thywydd pur arw yn ystod y gaeaf.

Yn y darlun hefyd mae Mr Thomas Jones, Waunfawr; Mr S.R.Williams, Betws Garmon; Miss Kate Lucy Jones, y brifathrawes; y Parch Rhys Lewis; Miss Ellen Jones, athrawes gynorthwyol; a Mr G.J.Roberts, swyddog presenoldeb.



Tynnwyd y llun gan Hesketh Hughes o Gwmni Hughes a'i Fab, ironmongers, Caernarfon. Tybed beth oedd ei gysylltiad ef â Betws Garmon? Os oes gan unrhyw un wybodaeth am yr ysgol neu am y brifathrawes a'i hathrawes gynorthwyol, yna rhochw wybod.

Adfail y Waunfawr.

Pen y ffridd oedd enw'r adfeilion a ddangoswyd yn y rhifyn diwethaf. Yng Nghyfrifiad 1891, doedd Waunfawr ddim yn blwyf, ond yn rhan o Lanbeblig. John Thomas, ei wraig, Elisabeth, a'r plant Margaret, Owen, Elisabeth a Thomas oedd yn byw yma. Roedd John Thomas yn chwarelwr llechi, genedigol o blwyf Llanbeblig, ond Elisabeth o blwyf Llanllyfni. Roedd y plant i gyd wedi eu geni yn Lanbeblig. Mae'r teulu yn dal yma yn 1901, ond fod John Thomas erbyn hyn yn honni mai yn Llanllechid y cafodd ei eni! Nodir fod y plant i gyd wedi eu geni ym mhlwyf y Waunfawr (a oedd mewn bodolaeth ar wahan i Lanbeblig erbyn hyn). Roedd pedwar eraill o blant, sef Catherine, Robert, Hugh a Margaret arall.

Does neb yn byw ym Mhen y ffridd erbyn 1911. Symudodd teulu Thomas i Dinas, Waunfawr. Tybed felly a'i y nhw oedd y teulu olaf i fyw yno? Os oes rhywun yn gwybod am Ben y ffridd neu am aelodau o'r teulu, byddai'n ddiddorol cael gwybod; yn enwedig os oes lluniau o'r bwthyn ar gael cyn iddo fynd yn adfail.

A dyna'r cyfan am wyliau'r haf. Os byddwch yn crwydro rhai o lwybrau'r fro dros yr haf, beth am anfon lluniau rhai o'r adfeilion i mi. Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy am yr hen dai a bythynnod sydd yn brysur mynd yn angof. Cysylltwch efo Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon: 01286 673515)

DOSH PAWS 

TACUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racca
(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Gwasanaeth Gwres a Plymio 

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Gwobr Fathemateg Kelly o Waunfawr, disgybl Bl 8 yn Ysgol Brynrefail, yn derbyn ei thystysgrif am waith Mathemateg yn y Babell Wyddoniaeth ar faes Eisteddfod yr Urdd. Cyflwynwyd y dystysgrif iddi gan Connie Fisher.

Diolch Dymuna Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a negeseuon ffôn ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

Rwyf yn wir yn gwerthfawrogi pob dymuniad da, Gwilym Williams

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mai oedd: £30: Mr D. Treflyn Thomas, Tre Forfan; £20: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £10: Mr a Mrs S. a C. Jones, Ty'n Cae.

Cywiro Enw Hoffwn gywiro enw Loti Jen, merch fach Nia a Mathew Gosset, nid Loli Jên fel y cofnodwyd yn rhifyn mis Mai o'r Eco. Diolch.

Genedigaethau Llongyfarchiadau i Gill ac Eurig Wyn, Y Frenni, ar ddod yn nain a thaid i'w hail wyres

fach, sef Cadi, merch Euros a Catrin, chwaer fach i Anni a chyfnither i Math.

Llongyfarchiadau i Sion Rhys ac Isla, 23 Bro Waun, ar enedigaeth eu mab bach, Ronni Dafydd, ŵyr i Ann Wyn a dyma Ron ac Ilid Williams, Bro Waun, yn hen daid a hen nain am y tro cyntaf.

Ganwyd merch fach, Enfys Wyn, i Manon a Robin, 7 Ael y Bryn. Mae Owain, Eysyllt, Sion, Cian, Caleb ac Elain wedi gwirioni gyda'u chwaer fach newydd ac eisiau ei magu. Llongyfarchiadau mawr ichi.

Bedydd Ynystod y gwasanaeth fore Sul, Mai 26 yn Eglwys y Waun, bedyddiwyd Noa, Llio a Tomos, gan ein gweinidog, y Barchedig Gwenda Richards. Plant bach Rhian a Dilwyn, Gorwel y Môr. Mrs Gwenda Griffith oedd yr organyddes yn

y gwasanaeth.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Lowri Dunn a fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 92 oed ddechrau mis Mehefin.

Dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed y bu Shona Morris, Bryn Celyn. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iti i'r dyfodol, Shona.

Eisteddfod yr Urdd Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n cystadlu yn y Côr, y Parti Llefaru a Sioe Gerdd Ysgol Brynrefail yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro, er na chafwyd llwyfan roedd yn brofiad arbennig iddynt.

Roedd Mareed Rees yn aelod o Barti Llefaru Aelwyd Dyffryn Nantlle a ddaeth yn ail yn eu cystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ennill Ysgoloriaeth Llongyfarchiadau i Gareth Wyn Jones (Bryn Meredydd gynt) ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth, ble y bydd yn astudio Gwyddoniaeth. Dymunwn bob llwyddiant iti yn dy gwrs.

Newid Aelwyd Mae Mrs Mary Evans (Tref Eilian gynt), ond sydd wedi bod yng Nghartref Preswyl y Foelas, Llanrug, ers tro yn awr wedi symud o'r Foelas i Gartref Preswyl Gwynfa yng Nghaernarfon. Dymunwn yn dda i chi yn Gwynfa.

Anfonwn gofion cynnes at Mr Aled Williams sydd wedi ymgartrefu gyda'i ferch, Gwyneth, a'i theulu yng Nghaerdydd. Bydd yn cadw

cysylltiad â'r Waun drwy dderbyn yr Eco bob mis. Adref o'r Ysbyty Wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty mae Sian Rowlands Ty'n Coed, wedi cael dod adref. Hyderwn y byddi yn cryfhau ac yn gwella, Sian.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Winnie Evans, Lleifor, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, gan ddymuno gwellhad buan ichi.

Cydymdeimlo Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs Alison Evans a theulu Tremallt yn eu profedigaeth o golli mam Alison a oedd yn annwyl iawn iddynt.

Yr un yw ein cydymdeimlad tuag at Mrs Judith Jones a theulu Ty'n Twll yn eu colled a'u hiraeth am fam Judith a oedd yn annwyl iawn ganddynt.

Profedigaeth Anfonwn ein cydymdeimlad at Kerry a Geraldine Swatridge ac Alice yn Y Felinheli, rhieni a chwaer Pauline a fu farw'n frawychus o sydyn. Hyd yn ddiweddar bu'r teulu yn byw yn y Waun. Bu geiriau caredig Mrs Gwennan Williams, prifathrawes yr ysgol a mamau ei ffrindiau yn gysur mawr iddynt yn eu colled a'u hiraeth amdani.

Diolch Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian gynt, ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati tra roedd yn byw yn Tref Eilian. Diolch hefyd am bob gofal a dderbyniodd tra bu yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri, ac i staff cartrefi preswyl Plas Pengwaith a Chartref Nyrsio Penisarwaun. Diolch o galon i bawb.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Eisteddfod Genedlaethol Dymuniadau gorau i barti canu Genod Gwyrfai sydd wrthi yn ymarfer yn galed ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod ddydd Sul, Awst 4.

BOCS?

Mae Parti Genod Gwyrfai am drefnu bws i'w cludo i'r Eisteddfod yn Ninbych ddydd Sul, Awst 4. Os oes unrhyw un o'r pentref/ardal yn dymuno mynd i'r Eisteddfod ar y bws cysylltwch â Nia Llwyd, Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Ffôn 01286 650092 am fanylion.

Gwybodaeth am ardal y Waunfawr.

Mae grwp Rhwydwaith Gymunedol Gwyrfai yn paratoi nifer o gylchdeithiau bach a mawr o gwmpas y Waunfawr. Y bwriad yw cyhoeddi taflen tebyg i'r rhai y mae sawl plwyf arall wedi ei ddatblygu yn y blynyddoedd diwethaf dan law medrus a chelfydd Gareth Roberts. Dan arweiniad y Cynghorydd Eurig Wyn a Duncan Brown mae'r grwp am ddatblygu taflenni sydd nid yn unig yn arwain y cerddwr ar hyd y llwybrau ond hefyd yn dangos rhai o'r rhyfeddodau arnynt wrth iddo/iddi basio. Tybed a fyddai darllenwyr yr Eco sydd yn gyfarwydd ag ardal y Waunfawr, ei hanes a'i byd natur, yn fodlon rhannu eu gwybodaeth â ni, yn lluniau neu yn straeon (byr iawn) fel y gallwn gynnwys rhai yn y daflen fel bo'n addas. Byddwch cystal a danfon eich deunydd i Eurig Wyn (Y Frenni, Waunfawr). Byddwn yn dra diolchgar.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
- ★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

CWMBRÂN

Glywsoch chi rywbeth am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yng Nghwmbrân ers deufis a mwy? Mae'n werth sôn amdano, petai ond i ddangos bod llawer o'r hyn a ddywedir am Gristnogaeth heddiw yn gwbl anghywir.

Fe glywsoch chi a minnau ddigon o bobl yn honni bod y Ffydd Gristnogol wedi darfod amdani yng Nghymru. 'Does neb eisiau mynd i gapel ac eglwys. Does gan bobl ifanc ddim diddordeb yn yr Efengyl. Does neb yn credu'r Beibl erbyn hyn. Mae dyddiau pregethu wedi darfod. Does gan Gristnogaeth ddim byd i'w gynnig i bobl heddiw. Fedrwn chi ddim disgwyl i bobl gredu'r hen athrawiaethau sy'n gwbl amherthnasol i bobl yr oes hon. Welwn ni fyth ddiwygiad arall yn y wlad hon.' Dyna'r math o bethau y bu pobl yn eu dweud hyd at syrffed ers blynyddoedd.

A dyna pam bod yr hyn sy'n digwydd yng Nghwmbrân yn werth sôn amdano. Ers dros naw wythnos, mae oedfaon arbennig wedi eu cynnal yno bron bob nos o'r wythnos. Mae yno lawer o bobl ifanc sy'n tystio eu bod wedi dod i adnabod Iesu Grist. Daw cannoedd o bobl i wrando ar bregethau sydd wedi eu seilio ar y Beibl. Mae pobl yn sôn am Iesu Grist ac yn tystio i'r hyn y mae wedi ei wneud yn eu bywydau. Gwelwyd pobl yn teithio yno o bob cyfeiriad i weld beth sy'n digwydd ac i fod yn rhan o'r addoliad. Roedd yr eglwys wedi tyfu o ryw 30 o aelodau i 500 mewn tair blynedd cyn i'r hyn a ddisgrifir fel y 'Tywalltiad' gychwyn ym mis Ebrill.

Amser a ddengys beth yn union a ddaw o'r gwaith hwn. Gweddiwn y bydd Duw yn diogelu'r gwaith ac yn tywallt bendith gyfoethog nid yn unig ar Gwmbrân ond ar rannau eraill o'n gwlad cyn bo hir. Ond mae'r hyn sy'n digwydd yno ar hyn o bryd yn werth ei adrodd wrth y genhedlaeth hy bresennol sydd mor barod i ddifrio'r Ffydd a phob sôn am Dduw. Mae'n dangos nad yw tranc yr Eglwys Gristnogol yng Nghymru mor sicr ag y bu pobl yn ei ddarogan ers blynyddoedd. Mae'n dangos bod Duw'n gallu bywhau ei waith. Mae'n dangos bod addoliad Cristnogol yn medru bod yn beth byw a real. Mae'n dangos nad yw pregethu Beiblaidd ac athrawiaeth iach mor amherthnasol wedi'r cyfan. Mae'n dangos bod modd i bobl ifanc ddod i ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae'n dangos bod Duw yn dal yn Dduw, ac y gall eto dywallt bendith ar bobl ein gwlad ym mha le bynnag ac ym mha ffordd bynnag a fyn.

JOHN PRITCHARD

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

- i sefydlu menter
- i gynnal gweithdai
- i geisio am arian
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

COFIO GWENLLIAN



I gloi blwyddyn arall o gymdeithasu diddan a gwranddo ar amrywiol siaradwyr gwadd aeth 35 o aelodau a ffrindiau Clwb Cinio Arfon ar wibdaith. Lleoliad y daith oedd Sempringham a Sixhills dau bentref gwledig yn ardal Lincoln. Yma, mae'r cyswllt â chyfnod Llywelyn ein Llyw Olaf a'r bryntni a'r dialedd a ddaeth yn sgil ei farwolaeth yng Nghilmeri.

Gwnaed trefniadau trylwyr gan Gwen Aaron ar gyfer yr aelodau, a diolch am drefniadau cwmni Arvon a Malcolm, y gyrrwr. Ar y nos Sadwrn arhoswyd yng Ngwesty'r Hilton yn Nottingham.

Yna, fore Sul y daith i'r ddau fangre arbennig yma. Un o'r aelodau yw'r Prifardd Ieuan Wyn, ac wrth i ni agosau at y gyrchfan cawsom yr hanes yn ei ffordd ddidwyll a thrylwyr.

Cawsom wybod fod Gwenllian wedi colli ei mam, Eleanor de Montfort, o fewn wythnos i'w genedigaeath yng Ngarthcelyn, ger Abergwynnegrn, ym Mehefin 1282. Yr oedd Eleanor yn chwaer i Simon de Montfort un o brif farwniaid Lloegr. Yn wir roedd Edward Iaf, brenin Lloegr, yn y briodas yn 1277. Ond erbyn 1282 roedd Llywelyn ap Gruffudd yn Dywysog Cymru ac Arglwydd Eryri o linach Tywysogion Gwynedd. Daeth y gwrthryfel a marwolaeth Llywelyn yng Nghilmeri. Yn chwe mis oed roedd Gwenllian wedi colli ei mam a'i thad. Hi oedd yr etifedd ac felly, fel unig blentyn, yn fygythiad yng ngolgwg Edward.

Yn amddifad, cipiwyd Gwenllian oddi wrth ei theulu gwarchodol a'i danfon i briordd dan nawdd Abaty Sempringham. Y bwriad oedd na chât Gwenllian feichiogi ac yno fe'i cadwyd yn gaeth fel lleian nes ei marw yn 54 oed yn 1337. Ni chafodd fentro tu allan i furia'r lleiandy. Tybed a gafodd wybod ei chefnidir?

Yn ddiweddarach cipiwyd Gwladys, merch Dafydd brawd Llywelyn, a'i charcharu hi yn abaty Sixhills. Aethom yno i weld lleoliad ei bedd wedi ei leoli ar groesbynt croes o goed yw - arwydd o fedd brenhinol. Eto y bwriad o ddiennyddio'r tad oedd gwadu unrhyw olyniaeth. Ymhen blynnyddoedd roedd merch Robert y Bruce i'w charcharu yno yn yr un modd i wadu olyniaeth yr Alban.

Ond yn ôl i Sempringham, sydd erbyn hyn yn gyrchfan i nifer o Gymru. Dim ond twmpath o bridd yng nghanol cae o rêp melyn sy'n dynodi lleoliad yr hen leiandy. Gerllaw mae eglwys St. Andreas, ac yno erbyn hyn mae gŵr a gwraig, y Davenport

yn cadw'r fflam ynghyn. Mae'r wraig o ardal Maesteg ac yn brwydro i gadw'i Chymreictod. Yn yr eglwys gellir prynu llyfrau a phamffledi i gofio Gwenllian.

Yn 1991 codwyd cofeb i gofio Gwenllian ar gwr y cae. Yn 1996 ffurfiwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian dan arweiniad Mallt Anderson. Eu nod oedd adfywio'r cof am Gwenllian a ddiplannodd o gof cenedl. Hwy hefyd fu'n gofalu am y gofeb. Yn 2001 fandaleiddiwyd y gofeb. Codwyd cofeb newydd o wenithfaen cadarn chwarel Penmaenmawr, a'r geiriau wedi eu sgathru ar lechen oesol y Penrhyn gan Ieuan Rees y cainlythrennwr o Lanelli. Tanysgrifiwyd gan bobl o bob rhan o'r byd. Rhyfeddol fod y gofeb o'i gwyllo o'r ochr ar ffurf lleian.

Erbyn hyn mae cofeb i Gwenllian, Tywysoges Eryri ar gopa'r Wyddfa, ac mae Carnedd Gwenllian erbyn hyn yn enw swyddogol yn cymryd ei lle rhwng Carnedd Llywelyn a Charnedd Dafydd uwchlaw Dyffryn Ogwen. Y mae Gwenllian wedi cael dod adref. Bydd ein cyfnod ger y gofeb yn aros yn hir yn y cof. Roedd sawl deigr yn wrth i Ieuan Wyn ddarllen cyfres o englynion yn coffau Gwenllian. Yna yn urddasol canwyd ein hanthem genedlaethol. Yn yr un modd y ddwy emyn a ganwyd tu fewn i eglwys St. Andreas. Drws yr eglwys yw'r drws gwreiddiol o'r abat. Yr oedd y daith yn brofiad i'w thrysori.

Y mae Clwb Cinio Arfon yn cyfarfod yn y Caban, Brynrefail ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis. Y drefn yw cael pryd o fwyd blasus, ac yna ein diddori gan siaradwyr gwadd hwyliog, diddorol ac amrywiol eu meysydd. Daw y mwyafrif o'r aelodau o Fro'r Eco ac yn gwmni diddan. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno gellir cysylltu â'r Ysgrifenydd/Drysorydd, Dafydd Williams (01286 871754). Bydd y clwb yn ail-gyfarfod ym Mis Medi. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Richard Llwyd Jones



GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882


Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol

Richard S. Humphreys

SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Ar ben arall i'r lein

Does dim byd fel tipyn o haul i godi'r hen ysbryd. Yndi, mae wedi bod yn bleser gallu rhoi rhyw ychydig o oriau yn awr ac yn y man at waith y gymdeithas, bechod na fuasai tipyn mwy yn rhoi ei hysgwyddau at y gwaith o dacluso'r glannau. Tipyn o amser yn yr haul, ymarfer tipyn ar yr hen gorffyn, cofiwch does dim taliad i gael ond llawer o hwyl a sbri ac, wrth gwrs, dros yr wythnosau diwethaf mae'r lliw haul wedi dod am ddim. Os oes rhywun, yn enwedig y lluoedd ymddeoledig, eisiau cymryd rhan, yna cysylltwch â mi. Mae'n debyg na fydd llawer o alwadau yn dod fy ffordd ond, ar y llaw arall, efallai y caf fy siomi o'r ochr orau.

Dros yr wythnosau diwethaf mae cryn tipyn o waith wedi bod yn mynd ymlaen i gadw'r llwybrau a'r meysydd parcio yn agored a threfnus, dyma faes ble mae'r aelodau yn gweithio i'r gymuned. Mae nifer fawr yn credu ei bod yn rhan o'u hetifeddiaeth i barcio a cherdded ar diroedd y gymdeithas, a da beth ydi hyn, ac i'r rhai sy'n manteisio ar ein llafur yna da chwi gwirfoddolwch rhyw awr neu ddwy at waith y clwb - mawr fydd eich gwobr! Ia, ond mae na fwy nac un ystyr i wobr, a chefais y fraint dros y misoedd diwethaf o gael gwobr yn ymestyn o fis Rhagfyr 2012, sef yr amser ble cafwyd cyflenwad o rawn eog i'r ddeorfa. Dim ond taro golwg yno fyddaf o dro i dro gan fod y gwaith gwarchod yn cael ei drefnu gan wirfoddolwyr y ddeorfa.

Mae'n wyrthiol gweld y wyau bach pinc yma yn dechrau magu bywyd, yna ymhen rhyw dri mis yn deori yn bysgod bach. Mae'r pysg bach yma yn byw ar sach bwyd ei hunain am gyfnod a all ymestyn o bythefnos hyd at rhyw chwe wythnos, hyn yn dibynnu'n hollol ar dymheredd y dŵr. Eleni roedd yn eithriadol o oer, mae hyn yn gweithio i fantais y pysgod, fel eu bod yn hwyrach yn deori a phan mae eu dibyniaeth ar eu sach bwyd yn dod i ben bydd y tywydd wedi cynhesu rhyw ychydig a felly yn eu gwneud yn fwy parod i fwyta be sy'n cael ei roi o'u blaenau. Mae hyn wedi gweithio yn arbennig eleni ac roedd yn bosib eu gollwng allan i is-nentydd y Seiont ar 6ed o Fehefin. Rhoddwyd cyflenwad yn y nentydd canlynol - Ffos y Dail, tir Coed Belyn, Afon Goch, Llanberis, tir Hafod Lydan ac Afon Penrallt, Dinorwic, tir 1st Hydro. Buaswn yn hoffi trosglwyddo diolchiadau'r gymdeithas i deulu Hafod Lydan, Llanberis a Bethel am eu diddordeb a'i parodrwydd pob amser i ganiatau mynediad i'w tiroedd at y gwaith pwysig yma.

Yn yr wythnosau nesaf bydd stoc i'w ddioli i Afon Arddu, eto ein diolchiadau i deulu Cefn Coch, Deiniolen am fynediad dros eu tir. Rwyf hefyd yn ymddiheuro o flaen llaw os dwi di bod yn esgeulus yn fy niolchiadau at dirfeddianwyr eraill sydd mor gefnogol i nod y gymdeithas.

Gyda'r holl waith magu a deori sy'n mynd ymlaen yn lleol yn Crawia, mae'n syndod gan pawb sydd ynghlwm â'r cynllun na fuasai rhai o ysgolion yfro yn dangos diddordeb. Dyma destun gwersi o ddiddordeb i bob oed. Dyma'r unig safle sy'n cael ei redeg gan gymdeithas leol, rwy'n credu, drwy Gymru, felly da chwi manteisiwch ar y cyfle.

Mae dyddiad cyfarfod Fforwm Padarn wedi ei newid o ddiwedd Mehefin i 12ed o Orffennaf, mae'r lleoliad yr un â'r dyddiad gwreiddiol, sef Gwesty'r Fictoria, Llanberis.



Rwyf wedi adrodd rai misoedd yn ôl fy mod yn amau bydd cwmni Dŵr Cymru yn anwybyddu eu bwriad, a gyhoeddwyd yn ystod Hydref 2012, o gau gwaith carthffos Llanberis ac adeiladu gwaith modern ym Mrynrefail. Wrth ddal sylw ar y gwaith sy'n mynd ymlaen ar safle Llanberis rwy'n amau'n gryf y bydd trigolion Brynrefail yn dathlu na fydd y gwaith ar gyrion y pentref yn mynd ymlaen. Nid yw cwmni fel Dŵr Cymru yn gwario ar safle ac wedyn ei chawlu ymhen tair blynedd. Os mai dyma yw'r gwirionedd yna mae'r awdurdodau yn ddigon eglur yn eu bwriad o arwyddo'r gwarant sy'n condemnio'r torgoch i abergofiant.

Ar 1af Ebrill fe unwyd Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad a'r Fenter Goedwigaeth. Mae'r corff newydd wedi ei fedyddio gyda'r enw Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyn yr ymuno roedd y Cyngor Cefn Gwlad yn gwrthwynebu'n gryf y syniad o adeiladu gorsaf drydan hydro yng Nglyn Rhonwy, roedd un o'r gwrthwynebiadau yn ymwneud â'r torgoch. Da iawn, medda ni. Ond erbyn wythnos gyntaf Mehefin mae'r corff newydd wedi tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl. Yn ei nodiadau yn cytuno â'r cynllun does dim cyfeiriad o gwbwl at y bygythiad i'r bysgodfa. Dyma gorff sy'n amlwg am roi'r economi o flaen ein cyfoeth naturiol, a fydd yn bosib i ni y pysgotwyr allu ymddiried ynddo, anodd 'di credu hyn rhywsut.

Dyma enghraifft arall o'r dryswch Cyfoeth Naturiol Cymru - mae rhif argyfwng yn bodoli ar y linell 0800. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn annog pawb i ddefnyddio'r rhif yma, nid oedd y sustem yn berffaith ond mi oedd yn gweithio. Wythnos yn ôl cafwyd nifer o alwadau gan aelodau o'r cyhoedd fod rhwyd wedi ei gosod yn y Fenai yng nghyffiniau'r Odyn Galch, Caernarfon. Mae gosod rhwyd ar y Fenai yn hollol anghyfreithlon o Ebrill hyd at Tachwedd. Fe alwyd y rhif 0800 nifer o weithiau gan wahanol unigolion, a dyna syndod, doedd neb yn ateb - felly y neges at ein Llywodraeth yng Nghaerdydd - os am newid pethau, byddwch yn sicr fod pethau yn mynd i weithio, ond wrth gwrs tydi'r Fenai yn ddigon pell o Gaerdydd!

Wel dyna ddigon ar y materion gweinyddol, beth am y sgota ei hun tybed? Wel, araf iawn yw'r afonydd, er eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd mae tipyn o frithyll bach yn ymddangos yn y Seiont ac mae hefyd rhyw ychydig o sewin go drwm wedi eu gweld yn symud yn gyflym drwy'r pyllau. Does gen i ddim adroddiad am neb wedi dal 'run o'r tair afon. Mi fydd hyn yn newid gobeithio wrth inni droi i Orffennaf.

Mae'n amlwg fod llygredd Padarn bedair blynedd yn ôl, hefyd effaith arllwysion o waith carthffos Penygroes yn dal i effeithio ar y Seiont a'r Llyfni. Ond gyda'r pysgod bach sydd i'w gweld eleni, efallai fod pethau yn dechrau gwella. Rhaid ymestyn ein diolchiadau fel cymdeithas i berchenogion rhai o hawliau pysgota ar y ddwy afon am eu parodrwydd i gydnabod y problemau sy'n bodoli ac yn ein cynorthwyo i sicrhau fod eu hawliau ar gael i bysgotwyr lleol. Diolch o galon i chwi oll.

Mae llynnoedd Cwellyn a Nantlle a Cwm Silyn yn sgota'n eithriadol o dda, cofiwch brithyll gwyllt naturiol sydd yn y dyfroedd yma. Ond ar y funud gyda stocio brithyll yr enfys (stocio diweddaraf oedd ar 18 Mehefin), Dywarchen yw'r ffeffryn. Mae yn lle eithriadol o braf, pan mae'r haul allan hynny ydi, wrth gwrs. Mae stoc eleni yn eithriadol, a be sy'n galonogol yw'r nifer o bysgotwyr o dramor sy'n ymweld â'r dyfroedd, mae'r ymwelydd diweddaraf yn dod o Awstralia ac mae'n dipyn o sgotwr hefyd! Aros yn Llanberis mae o am rhyw bythefnos ac wrth ei fodd yn sgwrsio â'r Tylwyth Teg ar lannau Dywarchen. Mae si fod rhai o'r brodorion bach yma am fynd dros y Dŵr am wyliau i wela y Cangarws. Mae rhai yn ddigon miniog a dweud fod gennyf fwy oobaith dal cangarw na dal un o frithylliad y Dywarchen! Mi gewch weld pan fydd y blob oren yn cael ei daflu allan dros y dŵr wythnos nesaf.

Hwyl am y tro

Huw Price Hughes



Clive James yn gwisgo crys taith gyntaf y Gogs i Ddylun yn 1993 i bencampwriaeth Byd y Golden Oldies.

A'r sylw draw gyda'r Llewod yn Awstralia, at rygbi dwi'n troi. Y gwestai yw'r cyn-chwaraewr, hyfforddwr, pwyllgorddyn, sylwebydd ac arch gefnogwr o'r gwreiddiau i'r lefel ryngwladol. Croeso i Clive James o Gaeathro.

Un o Abertawe yw Clive. Ei fam yn danbaid dros griw y Vetch a'i dad dros fois rygbi Sain Helen. Dylanwad y tad a orfu. Chwarae rygbi yn yr Ysgol Uwchradd yna i Brifysgolion Durham a Herriot Watt yng Nghaeredin. Yn naturiol ei ddenu i awyrgylch ryfeddol

Cofio 6: Boi A'i Gae, Mae'n Byw Y Gêm

Murrayfield ar ddyddiau gemau rhyngwladol a gweld pob gêm fawr yno am bum mlynedd. Ond Cymro i'r carn yw Clive!

Dod i Gaernarfon yn 1972 i weithio i Gyngor Sir Caernarfon a chwarae i glwb rygbi Bangor!

Yna ar Dachwedd 6ed 1973 yng nghlwb Marbryn, Caernarfon, yn un o sylfaenwyr Clwb Rygbi Caernarfon a'r Cylch. Ers hynny bu'n chwaraewr i holl dimau'r clwb a'r 'hynafwyr' y GOGS. Yna'r prif swyddi: Capten yr Ail Dîm, Ysgrifennydd am 10 mlynedd, Hyfforddwr Iau am dros 20 mlynedd, a Llywydd 2014. Dim rhyfedd i'r clwb ei anrhydeddu fel Aelod am Oes. I bawb sy'n adnabod Clive mae'n un â daliadau cryfion ac yn barod i leisio barn yn ddi-flewyn ar dafod. Mae'n hynod falch o lwyddiant tim rhanbarthol y Gogledd. Daw y prawf pan fydd rhaid meithrin a datblygu strwythr ariannol pan fydd nawdd URC yn prinhau. Bydd nawdd a chefnogaeth leol yn hanfodol i gynnal y fflam. Cyfeiria Clive at gyfnod Caernarfon yn Adran 7 De-ddwyrain Cymru ddegawd yn ôl. Dyddiau wrth fodd y chwaraewyr. Rhediadau da yn

y cwpanau. Llangefni hefyd yn ffynnu, a chael dyrchafiad ddwy waith. Ond clybiau'r De yn anfodlon teithio i'r Gogledd ddwy waith y tymor. Pam y mae hi'n bellach o'r De i'r Gogledd nag o'r Gogledd i'r De? Heddiw tair adran i Gynghrair y Gogledd yw'r drefn, gyda'r safon er yn gwella dim yn drwyddi gyson. Mae Caernarfon yn sefydlog yn y Brif Adran a record dda dros y blynyddoedd diwethaf.

Nid yw Clive yn gefnogwr brwd o'r strwythr rhanbarthol ar y lefel 'uchaf'. O gofio cyflogau uchel y chwaraewyr a hyfforddwyr teimla nad yw'r safon yn ddeniadol. Torfeydd bychan, ac heb yr un awch a phan oedd y gêm Gymreig yn seiliedig ar y clybiau, fel Castell Nedd, Pontypridd... Mae'n falch o'r gemau nos Wener ar y teledu oherwydd diwrnod y clwb lleol – Caernarfon – yw'r Sadwrn o hyd i Clive. Cyfeiria at gyffro y gêm rygbi 13, ble mae'r pwyslais ar greu'r bylchau nid yr agwedd gorfforol o redeg yn syth at wrthwynebwyr fel yn rygbi 15. Corfforol yw'r nod, chwedl Clive, ond y 'dewiniaid' sy'n tanio'r dorf. Un wedi ei fagu ar gewri'r 70au yn amlwg. Yna'r Llewod, cydsyniad sy'n

apeliu'n fawr i Clive. Dilynodd y Llewod yn Awstralia (1989), Seland Newydd (1983) a De'r Affrig (1990). Hefyd dilynodd Gymru i'r Ariannin. Yr apêl oedd bod ymysg pobol rygbi 'go iawn'. Gwir gefnogwyr a'r cymdeithasu a thrafod yn creu cyfeillgarwch. 5,000 a fentrodd i Awstralia yn 1983, 40,000 eleni. Yn amlwg, nid 'pobol rygbi' ydi'r mwyafrif. Profodd wefr ffeinal yr Heineken rhwng dau dîm Ffrengig yn Nulyn. Achlysur rygbi go iawn, chwedl Clive. Yr un pleser gaiff o wyllo Caernarfon yn brwydro i fyny'r llethr yn erbyn yr Howgets neu hogia Nant. Mae i rygbi ei draddodiadau a safonau, ac yn y gwersyll yna mae Clive.

Roedd yn siomedig ag agwedd URC yn anfon tîm 'gwan' i herio Siapan. 'Capiau' rhad efallai.

Geiriau olaf Clive oedd, 'Rwyf wedi cael pleser ac iechyd i chwarae, gwylio, hyfforddi a gweinyddu am bron i 60 mlynedd. Daw yr Hydref ac fe ail gychwyn y rhod sydd wedi fy nghreu yn unigolyn gwell ac un sy'n edrych ymlaen o hyd.' Mr. Rygbi go iawn yw Clive. Diolch iddo am ei gyfraniad, ac nid yn unig ym myd rygbi dros sawl blwyddyn.

Cymdeithas Golff Dyffryn Peris



Bu Cymdeithas Golff Dyffryn Peris ar eu taith flynyddol i Westy Golff Herons Reach ym Mlaczpwl dros benwythnos y 9fed o Fehefin. Buom yn anhygoel o lwcus gyda'r tywydd. Cynhaliwyd twrnamaint cwpan Ryder lle bu tim Capten eleni (Tunes) yn fuddugol dros dîm Capten 2014 (Neil Cwm) o 9 pwynt i 6. Enillydd y gystadleuaeth unigolion ar y diwrnod cyntaf oedd Neil Cwm gyda Tunes yn fuddugol yn yr ail ddiwrnod. Tunes hefyd enillodd y wobr dros y dau ddiwrnod gyda chyfanswm o 71 pwynt, gyda Daniel Dwl yn ail (67) a Bryn Traed yn drydydd

(64). Fel y gwelwch, rydym yn hoff iawn o lys-enwau yn y Gymdeithas!

John, paid â chwerthin gormod!!

Noddwyd y penwythnos gan Irfon Hughes, London Garage, a mae o hefyd wedi darparu crysau golff i'r aelodau. A mawr yw ein diolch iddo am ei garedigrwydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi efo'r Gymdeithas, cysylltwch efo'r Ysgrifennydd, Medwyn Lloyd Roberts ar 01286 870454.

Hogia 'Malc'

Mae'r Heddlu wrth eu bodd, meddanhw! Neb arystrodoedd ar nos Iau bellach. Pawb adra yn gwyllo'r rhaglen. Un dda ydi hefyd. Wedi ei golygu'n dda iawn ac ychydig sy'n 'chwarae i'r camera'. Rwy'n hoffi'r thema sy'n gefndir i'r rhaglen fod tîm pêl-droed neu unrhyw gamp arall yn rhan naturiol o'r gymuned leol. Mater o falchder yw'r gefnogaeth selog mae'r tîm ifanc yma yn ei gael, gartref ac i ffwrdd. A'r merched? Na, nid pobol gwneud panad a bechdan yn unig ydy 'genod Llanber'!

Edrychwn ymlaen at weddill y gyfres, yn enwedig pan ddangosir y gemau darbi, a'r gemau yn erbyn y Cofis. Braf fuasai clywed barn gwylwyr bro'r Eco ar ddiwedd y gyfres. A beth am fideo neu lyfr?

Anhygoel.

Does dim gair arall i ddisgrifio camp Gareth McGuinness o Lanrug yn cofnodi'r amser cyflymaf ar y cymal hwyaf o Etape Eryri a gynhaliwyd yn ystod y mis. Roedd wedi gosod yr amser cyflymaf y llynedd yn yr Etape cyntaf, gan guro un o feicwyr tîm Sky wrth gwblhau cant a saith o filltiroedd mewn pum awr a chwarter. Ond eleni, doedd gan neb obaith. Erbyn cyrraedd y ddringfa ar y Migneint drosodd am Ysbyty Ifan, roedd wedi gadael pawb o'i ôl. Gan gychwyn o Faes Caernarfon am saith y bore, mae'n anodd credu iddo gyrraedd yn ôl i'r Maes cyn i'r cloc daro hanner dydd! Roedd wedi torri chwarter awr oddi ar ei record y llynedd! Mae perfformiad o'r fath ar dirwedd mor fynyddig yn argoeli'n dda iddo pan fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru ddechrau Gorffennaf. (mwy o hanes Etape Eryri ar y dudalen gefn)



Golau Coch a Chwech Eiliad.

Bydd rhain yn aros yng nghôf Phil Lynes o Lanrug am amser hir iawn. Yn ystod y mis bu'n cystadlu yn Nhriathlon y Rhyl, a daeth yn ail. Da iawn meddech chi. Ond onibai am olau coch ar un o ffyrdd y dref a orfododd Phil i aros efo'i feic nes iddo droi'n wyrdd, byddai wedi ennill! Yn unol â chanllawiau'r gystadleuaeth, roedd rheidrwydd ar y beicwyr i ufuddhau rheolau'r ffordd fawr neu gael eu diarddel. Newidiodd y golau i goch fel roedd yr enillydd yn beicio heibio a Phil yn dynn wrth ei olwyn ôl. Ac er iddo wneud ymdrech ganmoladwy, roedd chwech eiliad yn fyr ar ddiwedd y ras. Cysidwrch y tro nesaf y byddwch yn gorfod aros wrth olau traffig. Faint o amser mae'n gymryd i'r golau newid o goch i wyrdd. Does ryfedd nad coch yw hoff liw Phil!

Y Dwbl wedi'r siom



Enillwyr Cyngghair Gwyrfaï a Chwpan y Gynghrair gyda'i rheolwyr Adrian Roberts a Rodney Collins.

Roedd hi'n nos Wener, Mehefin 7, erbyn i'r tymor pêl droed ddod i ben i hogiau tîm dan 12 oed Llanberis. Bu'n dymor hir iawn, felly, gyda thair gêm i'w chwarae yn ystod yr wythnos olaf. Nos Lun, Mehefin 3, oedd noson rownd gynderfynol Cwpan Cyngghair Gwyrfaï ar gae Bethel, gyda'r hogiau'n chwalu'r City Dragons o Fangor a sicrhau eu lle yn y rownd derfynol oedd i'w chwarae ar y nos Wener. Ond cyn hynny, roedd rhaid chwarae gêm olaf y Gynghrair, gartref ar Gae'r Dôl yn erbyn Talysarn ar y nos Fercher. Roedd yr hogiau eisoes wedi sicrhau'r bencampwriaeth trwy ennill pob gêm gynghrair ar wahân i un gêm gyfartal, a llwyddwyd i aros yn ddiguro trwy sicrhau gêm gyfartal 3-3 yn y gêm olaf hon. Cyflwynwyd Tlws y bencampwriaeth i'r hogiau ar ôl y gêm. Ac yna, ar gae Bontnewydd ar y nos Wener, curwyd Cae Glyn 4-3 yn rownd derfynol y Cwpan gan sicrhau'r 'dwbl'. Roedd yn golygu hefyd na lwyddodd yr un tîm lleol i guro Llanberis yn ystod y tymor.

Ond er y llwyddiant mawr a gafwyd ddiwedd y tymor, mae'n bosibl yn rhyfedd iawn mai'r gêm a fydd yn aros yn y cof yn fwy na'r un arall yw'r unig gêm a gollwyd trwy'r tymor cyfan. Oherwydd, ar un ystyr, yr anturiaeth fawr yng Nghwpan Dan 12 oed Cymdeithas Bêl Droed Gogledd Cymru oedd yr uchafbwynt i'r hogiau. Cyrhaeddwyd y rownd derfynol, ac o gofio bod timoedd o bob cwr o'r Gogledd yn cymryd rhan roedd hynny'n gryn gamp. Chafwyd fawr o drafferth yn rowndiau cynnar

y gystadleuaeth ar wahân i'r gêm gartref yn erbyn Cyffordd Llandudno a enillwyd o 2 gôl i 1, a'r rownd gogynderfynol oddi cartref yn erbyn Conwy, dan y llifoleuadau ar Gae'r Morfa nos Fercher, Mawrth 5, a enillwyd o 2 gôl i 1. Trechwyd tîm o Brestatyn yn weddol gyfforddus yn y rownd gynderfynol yn Llanberis ddydd Sadwrn, Mawrth 9.

Chwaraewyd y rownd derfynol yn erbyn Llandudno dan y llifoleuadau ar Gae'r Morfa unwaith eto nos Fercher, Ebrill 24. Roedd yn achlysur arbennig iawn, a'r stadiwm a'r llifoleuadau a'r dorf gref yn sicrhau awyrgylch cyffrous dros ben. Roedd yno hyd yn oed gamerâu teledu i gofnodi'r achlysur ar gyfer y gyfres ddogfen a baratowyd am dîm pêl droed Llanberis dros y tymor diwethaf. Chwaraeodd yr hogiau yn arbennig o dda, ac mae'n deg dweud mai Llanberis oedd y tîm gorau o ddigon. Ond, erystal y chwarae, prin iawn oedd y cyfleoedd i sgorio'r noson honno, a siom fawr oedd bod Llandudno wedi llwyddo i sgorio o fewn munud neu ddwy i ddiwedd y gêm. Ond er y siom, roedd yr hogiau wedi mwynhau'r achlysur yn fawr, a rhaid eu canmol am y ffordd y gwnaethon nhw gymeradwyo'r enillwyr ac ymateb i'r golled.

Ac yn amlwg, buan iawn y daethon nhw dros y siom a sicrhau diwedd mor llwyddiannus i'r tymor. Llongyfarchiadau mawr i holl aelodau'r garfan ac i'w hyfforddwyr, Rodney Collins ac Adrian Roberts. Diolch yn arbennig i'r ddau ohonynt am eu holl waith gyda'r tîm ers sawl blwyddyn bellach.

TLWS YRECO 2013

Ydy'r timau'n barod. Cysylltwch â mi cyn gynted â phosibl i mi gael trefnu'r nosweithiau. Ar faes Ysgol Gynradd Llanrug y bydd y rhai dan 9 ar nos Iau, Gorffennaf 11 am 6pm. Diolch i glwb Llewod Llanrug am eu cydweithrediad.

Nos Wener, Gorffennaf 12, bydd y rhai dan 11 draw ar Gae'r Ddôl, Llanberis. Tybed a welwn ni'r safon uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf eto eleni?

ECO'r Wyddfa

COFNODION MAI 2013:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor [Cyfarfod Blynnyddol] a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fawrth y 14eg o Fai, 2013 am 7 yr hwyr.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas, Ward Peris: Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Derek Jones, Iola Owen, Gwenda Roberts.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod DJ yn yr Ysbyty. Dymunwyd gwellhad buan iddo.

2 DATGANBUDDIANT: Dim

3 ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD:

Gyda'r Clerc yn cadeirio gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2013 – 2014. Etholwyd Bethan Holding yn Gadeirydd ac Iwan Harding yn Is-gadeirydd. Ni chafwyd cynigion eraill. Cynnig ac eilio: HS/BD a ED/HS. Cytunwyd yn unfrydol i'w hethol ac aeth BH i'r Gadair.

4 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 16eg o Ebrill, 2013 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: TT/DR.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Defaid Crwydrol:

Adroddwyd bod y tywydd a'r gwanwyn hwyr wedi golygu nad ydi'r grid gwartheg wedi ei osod eto.

Cafwyd trafodaeth ynglyŷn â difrifoldeb sefyllfa y defaid, a'r nifer cynyddol sydd o gwmpas ac awgrymwyd bod angen ystyried beth ellid ei wneud i'w hatal. Awgrymodd y Clerc gael gair efo'r Heddlu eto.

2. Y Fynwent:

Adroddwyd bod nifer o bantiau a thyllau yn y Fynwent wedi eu llenwi a phridd a'u hadu.

6. GOHEBIAETH:

1. Grwp Datblygu Llanberis:

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

Cafwyd llythyr yn dweud i'r Grwp gael adroddiad nad oedd cyflwr y goleuadau Nadolig yn ddigon da. Cafwyd apel am arian i gynorthwyo i brynu goleuadau newydd. Gofynnwyd am gost y cynllun, ond nid oedd EB wedi derbyn yr amcangyfrifon i gyd er bod lle i greu y byddai'r cyfan yn costio hyd at £3,000 o bunnau. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn cynorthwyo ar ôl cael gwybod yn union beth fydd y gost. Cynnig ac eilio: IH/ED.

2. History Points:

Cafwyd llythyr yn son am gynlluniau i roi gwybodaeth electronig mewn gwahanol leoliadau yn y pentref gan gwmni o ardal Conwy. Mae rhai o'r codau QR eisioes wedi eu gosod yn Llanberis; e.e. Rheilffordd y Llyn, Snowdon Star, Eglwys Sant Padarn ac Ysbyty'r Chwarel. Mae'r wybodaeth yn cael ei godi ar ffonau symudol 'smart'. Bydd y gost rhywle o gwmpas £50 y pwynt. Hyd yma er mwyn cael sylw a chyhoedduswyd mae'r cwmni wedi eu gosod am ddim. Penderfynwyd gwneud dim ar hyn o bryd.

3. Meinciau:

Adroddwyd bod y meinciau (gan Gyngor Gwynedd) i'w gosod yn fuan mewn nifer o leoliadau. Ger Caffi Llygad yr Haul, yr Eglwys Babyddol, Dôl Peris a gyferbyn a Joe Brown. Ni ddaeth unrhyw wybodaeth pellach am y meinciau eraill.

7 ACYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

- C13/0205/15/HV - cais i osod baneri ar bolion presennol o fewn y pentref - Stryd Fawr, Llanberis - dim sylw cynllunio, er roedd amryw yn teimlo bod y cyfan yn wastraff arian.

- C13/0366/15/LL - newid defnydd cefn adeilad o ystorfa i ddefnydd A3 - bwyty - Hotshot, 57 Stryd Fawr, Llanberis - dim sylw ac eithrio holi am fynediad i'r anabl.

1/2

- C13/0455/15/LL - cais ar gyfer codi estyniad unllawr to fflat ar gefn yr eiddo - 4 Blaen y Ddôl, Llanberis - dim sylw

- C13/0481/15/LL - cais ar gyfer codi estyniad rhannol unllawr a rhannol deulawr ar gefn yr eiddo - 2 Cambrian Terrace, Llanberis - dim sylw.

7B WEDIEU CANIATAU

1. CG: Caniatáu: Dim

2. APCE: Caniatáu: Dim

8 M A T E R I O N ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Ebrill 2013 -

Cyfrif Cyfredol: £7,729.55

Cyfrif Cadw: £5,330.66

b) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:

202014 Un Llais Cymru [Aelodaeth] 256.00

202015 Huw Owen [Taith yr Urdd, Patagonia] 300.00

202016 Elin Tomos [Taith yr Urdd, Patagonia] 300.00

202017 Richard Jones [Gofal Cysgodfannau - Mai] 50.00

202018 Evan Thomas [Cae UEFA - Mai] 40.00

202019 D Wyn Lewis [Gwaith llenwi tyllau a hadu, Y Fynwent] 200.00

202020 D Wyn Lewis [T Gwair Mai - Myn, Parc Bach] 185.00

202021 SLCC [Aelodaeth y Clerc] 75.00

202022 Richard Jones [Paentio Cysgodfannau] 30.00

202023 AONUK Ltd [Yswiriant y Cyngor] 1955.12

CYFANSWM

3391.12

c) Arian a dderbyniwyd rhwng 28/03/2013 a 28/04/2013:

Dyddiad Tarddiad Swm

19 Ebr Mynwent - Angladd JEJ, HG, LCP; Llwhch GJ 730.00

19 Ebr Mynwent - AWP 180.00

19 Ebr Mynwent - TE180.00

28 Maw Llôg 0.26

CYFANSWM ...

1090.26

ch) ARCHWILIWR

Penderfynwyd penodi John D Roberts yn Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn i ddod.

Cynnig ac eilio: OG/TT

9 Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

Y Fynwent:

Penderfynwyd anfon llythyr at Ymgymrwyr sy'n ymwneud a gosod cofebau yn y Fynwent i ofyn iddynt atgoffa teuluoedd o Reolau'r Fynwent mewn perthynas a beth a ganiateir ar feddrodau anwyliaid.

Llwybrau:

Nodwyd bod angen ail osod giat ar y llwybr yn arwain tua Llwyn Dyrus.

11 ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR

Grwp Datblygu (gweler yn gynharach).

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU Conservatori UPVC

Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772

Symudol- 07840 794269



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllograu • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

3 chynhyrchiad am Kate Roberts yn

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DINBYCH A'R CYLCH

THEATR TWM O'R NANT, DINBYCH

o Nos Fawrth 6ed o Awst – Nos Wener 9fed o Awst 7.30

‘CYFAILL’

drama newydd sbon gan Francesca Rhydderch

Archwilia'r ddrama deimladwy hon un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus ym mywyd Kate Roberts, pan fu farw ei gŵr, Morris, yn annhymig o alcoholiaeth. Gwelwn sut y mae ymddangosiad sydyn ymwelydd afieithus, bengaled ac ymhongar o Hwngari - Daisy Wagner - yn cymell Kate i'w chodi ei hun o ddyfnderoedd ei galar ac wynebu bywyd unwaith eto. A tybed ai'r ferch ifanc hon oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer un o greadigaethau mwyaf lliwgar yr awdures - Winni Ffini Hadog?

‘TE YN Y GRUG’

Addasiad newydd gan Manon Wyn Williams o un o hoff lyfrau ‘Brenhines ein Llên’.

Llwyfaniad syml, agos-atoch yn seiliedig ar y straeon sydd yn y nofel - straeon am dyfu i fyny, am golli diniweidrwydd, am blentyn yn ceisio deall cymhlethdod y byd a'i bobol, ac am dderbyn bod dadrithiad yn rhan o fywyd. Mae'r llyfr yn fytholwyrdd ac yn rhan annatod o gwricwlwm addysg ein hysgolion.

Y cast: Carys Gwilym, Morfudd Hughes, Fflur Medi Owen, Rhodri Siôn, Manon Wilkinson.

Cyfarwyddo: Betsan Llwyd

Cynllunydd: Emyr Morris-Jones

Gellir cael tocynnau cynyrchiadau ‘Cyfaill’ a ‘Te yn y Grug’ ar gyfer yr Eisteddfod drwy:

www.wegotickets.com/theatrbaracaws neu yn ogystal yn ystod wythnos yr Eisteddfod drwy ffonio: Mari: 07880031302

YN Y BABELL LÊN

DYDD SADWRN OLAF YR EISTEDDFOD am 12.45 y prynhawn

John Ogwen a Maureen Rhys yn ‘ANNWYL KATE, ANNWYL SAUNDERS’

Cipolwg ar gyfnod maith o lythyru rhwng dau o brif lenorion Cymru, yng nghwmni dau o fawrion y theatr yng Nghymru – fe gawn y dwys, y digri a'r deifiol.

Bydd ‘CYFAILL’ a ‘TE YN Y GRUG’ ar daith o amgylch Cymru rhwng 9fed o Fedi – Sed Hydref.

Yn ardal yr Eco bydd y daith yn ymweld â

Galeri, Caernarfon ar ddydd Llun a dydd Mawrth, Medi 9 a 10. (Ffôn: 01286 695222)

Neuadd JP Bangor nos Fercher, 18 Medi (Ffôn: Pontio 01248 382828)

‘Annwyl Kate, Annwyl Saunders’ ar daith o 20 Mehefin – 30 Hydref, 2013.

TEITHIAU GERDDED GORFFENNAF 2013

GWENER 5.7.13 10yb

DEINIOLEN / CLWT Y BONT (2milltir)
CYCHWYN: Caffi EB's, DeinioLEN.
Hawdd.

L L U N - G W E N E R 8-12.7.13

WYTHNOS TEITHIAU GERDDED LLYN PADARN YSGOL BRYNREFAIL

SADWRN 13.7.13 10yb

MAES AWYR CAERNARFON (3milltir)
HANESION YR AIL RYFEL BYD
CYCHWYN: Caffi'r Maes Awyr
Dathlu 70 mlynedd y Gwasanaeth Achub Mynydd.
Ar y cyd a Amgueddfa'e Maes Awyr. Bydd copiau o fap newydd ar gael.

MAWRTH 16.7.13 10yb

EGLWYS LLANRUG-HANES CYNNAR Y PENTREF (1½ milltir)
CYCHWYN/START: Cefn Ysgol Gynradd Llanrug
Hawdd.

GWENER - SUL 19-21.7.13

TAITH GERDDED RUFEINIG (25 milltir y dydd)
Codi arian i'r Sefydliad Brydeinig y Galon
Yn dilyn ei daith gerdded ar hyn y Lon Rufeinig o Gaernarfon i Gaer 5 mlynedd yn ol, nawr mae Gareth am gerdded o Tomen y Mur i Gaergybi yn y 3 diwrnod cymerwyd y Rufeiniaid. Bydd yr daith ar yr ail diwrnod, Sadwrn 20 Gorffennaf o Gaerhun, Conwy i Segontium. Cysylltwch a Gareth os chi eisie noddi ei daith.

Ffon/Phone: Gareth 07867 810576

MAWRTH 23.7.13 6.30yh
CYLCHDAITH LLYN PADARN (4½ milltir)
CYCHWYN/: Y Lagwns, Llanberis
Bryniog.

GWENER 26.7.13 2yp
HANESION O DEINIOLEN, DINORWIG a MARCHLYN (4 milltir)
CYCHWYN: Caffi EBs, DeinioLEN.
Bryniog.

MAWRTH 30.7.13 6.30yh
PENTIR a GLASINFRYN (4 milltir)
CYCHWYN: Y Faenol, Pentir.
Bryniog.

Peidiwch a phoeni os nad ydych yn gallu dod i unrhyw un o'r teithiau gerdded gan byddwn yn eu cynnal yn gyson ac ar y nosweithiau a phenwythnosau yn ystod yr gwyliau haf (a trwy'r gaeaf). Os bydd hi yn bwrw byddwn yn troi i fynu i arwain y teithiau ond eto, os nadydych yn ffansio dod yn y glaw yna eto, bydd y teithiau yn cael eu cynnal yn aml. Erbyn gwyliau'r haf y gobaith yw y byddwn yn gallu agor drysau ein ‘Canolfan Cerdded a Darganfod’ yn Nhŷ Caxton, Llanberis. Cewch rhagor o fanylion yn yr Eco. Hefyd, erbyn hynny byddwn wedi argraffu ail-fersiwn Map Hanes Plwyf Llanddeiniolen ac byddwn gyda newyddion am y mapiau eraill y byddwn yn eu cyhoeddi y haf yma. Am rhagor o fanylion cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 872014

Cist Gymunedol

Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Dobson Swyddog Datblygu Chwaraeon rhianedobson@gwynedd.gov.uk Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk



ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

Chwaraeon

Llwyddiant ysgubol eto


Dyna'r farn gyffredinol ymysg beicwyr a chefnogwyr Etape Eryri a gynhaliwyd ganol mis Mehefin. Roedd yn llwyddiant, nid yn unig i'r trefnwyr, sef cwmni Camu i'r Copa, sy'n gwmni lleol wedi ei ganoli ym mro'r "Eco", ond i fusnesau'r ardal hefyd, gan fod cymaint o feicwyr o bell ac agos wedi heidio i Gaernarfon; dros fil yn cystadlu ar y tri cymal – Etape Bach (dim ond 47 milltir!), Etape Canol (76 milltir) a'r Etape Mawr (103 milltir).

Fel yr adroddwyd ar dudalen 24, Gareth McGuinness o Lanrug oedd â'r amser cyflymaf ar yr Etape Mawr, ond hogyn lleol arall osododd yr amser cyflymaf ar yr Etape Bach. Owain James o Ddeiniolen a feiciodd o Gaernarfon i Benygroes a thrwy Ddyffryn Nantlle i Ryd-ddu cyn troi am Feddgelert a dringo drwy Nant Gwynant i Ben y Gwryd. Yna, i lawr Bwlch Llanberis i Lanrug cyn dringo eto i'r Waunfawr a disgyn i Gaeathro, Bontnewydd a gorffen yn Nghaernarfon. O gysidro'r pellter a'r dringo, roedd ei amser o ddwy awr a hanner yn arbennig o dda.

Y llynedd rhoddwyd sylw i Joan Glass o Ddinorwig a feiciodd yr Etape Bach a hithau'n 70 oed. Roedd yn beicio eto eleni, ac yn gorffen mewn amser rhyfeddol o ychydig dros deirawr a hanner!

Roedd degau o feicwyr eraill o'r fro yn cymryd rhan, ac nid yw gofod yn caniatáu i ni restru pawb. Llongyfarchiadau i bawb a gwblhaodd unrhyw un o'r tri chymal.

Gyda diolch hefyd i Gwynfor James am y lluniau.



Bois Y Dwbwl

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo Cynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch yn ddiweddar. Gyda balchder camodd aelodau Clwb Snwcer Bethel i'r llwyfan. Cyflwynwyd Tlws Pencampwyr Adran B a Chwpan y Gynghrair i'r hogiau. Esgyn felly, ac edrych ymlaen at dymor nesaf yn eu cartref



(O'r chwith): Cled Thomas, Idris Rees, Rhys Lewis (capt.), Dafydd Williams, Ian Roberts ac Iorwerth Lewis.

Yn absennol pan dynnwyd y llun oedd: Tony Thomas, Gerallt Williams a Barry Thomas.

Dringwyr ifanc llwyddiannus

Daeth tim dringo ieuencid Cymru yn ôl o bencampwriaethau Prydain yng Nghaeredin wedi dod yn drydydd allan o unarddeg o dimau, ac yr oedd tri o fro'r "Eco" yn rhan o'r tim llwyddiannus.

Maent i gyd yn aelodau o Academi Ddringo Ieuencid Gogledd Cymru sy'n cael ei noddi gan gwmni o'r fro hefyd, sef DMM Llanberis.

Yn dilyn y bencampwriaeth, roedd y triawd o'r fro yn cael eu safoni yn rhestrau goreuon Prydain. Llongyfarchiadau i Kierran Forrest o Lanrug am ddod yn seithfed yn ei grwp oedran (Kierran sydd yn y llun yn dringo yng Nghaeredin). Roedd ei chwaer fach, Caitlin, a Sophie Richards o'r Waunfawr hefyd ymhlith ugain gorau Prydain yn eu gwahanol grwpiau oedran.



Athletwraig ifanc addawol

Mae merch ifanc o Lanrug yn brysur yn gwneud argraff fawr ar y byd athletau cenedlaethol. Mae Anya Williams, 10 oed, yn mwynhau cryn lwyddiant yn ei thymor athletau llawn cyntaf gyda'i chlwb Menai Trac a Maes. Hyd yn hyn mae hi wedi ennill naw allan o'i deg ras y tymor hwn ar amryw draciau athletau ar hyd Gogledd Cymru ac mor bell a Manceinion. Yn diweddar ychwanegodd deitl Pencampwriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym Mae Colwyn i'w chasgliad gan ennill y ras sbrint 75m. Bydd Anya, sydd hefyd wedi cael llwyddiant yn y gamp naid hir, yn hyfforddi ddwywaith yr wythnos gyda'i chlwb yn Nhreborth ac y mae ar hyn o bryd wedi ei rhestru ymhlith pymtheg sbrintiwr 75m, dan 11, gorau'r Deyrnas Unedig.

